Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Dilyn y Ffordd at Hawliau

Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Adroddiad Amgen gan Gyrff Anllywodraethol Cymru:

Aros, Edrych, Gwrando - Sut mae Gwireddu Hawliau Plant yng Nghymru

Tachwedd 2008

PLANT A PHOBL IFANC - GWEITHREDU'R HAWLIAU
CHILDREN AND YOUNG PEOPLE - RIGHTS TO ACTION

© Hawlfraint y Goron Tachwedd 2008
D4390809

Cynnwys

		Tudalen
1.	Cyflwyniad	1
2.	Deddfwriaeth	2
3.	Adnoddau	3
4.	Cydgysylltu	4
5.	Cynllun Gweithredu	6
6.	Strwythuriau Monitro Annibynnol	8
7.	Casglu Data	9
8.	Hyfforddiant/Lledaenu'r Confensiwn	10
9.	Cyfranogi	11
10.	Cosb Gorfforol	14
11.	Plant Carchororion	15
12.	Amddiffyn Plant	16
13.	Plant sy'n Derbyn Gofal	18
14.	Iechyd	20
15.	Pobl Ifanc Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol	23
16.	Plant Anabl	25
17.	Tlodi Plant	29
18.	Addysg	32
19.	Chwarae	38
20.	Plant sy'n Ffoaduriaid ac yn Geiswyr Lloches	40
21.	Teithwyr o Dras Romani, Gwyddelig a Sipsiwn	42
22.	Camfanteisio'n Rhywiol a Masnachu	44
23.	Crynodeb a Chasgliadau	45

DILYN Y **L**LWYBR **C**YWIR

Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Amgen Cyrff Anllywodraethol Cymru 'Aros, Edrych, Gwrando: Sut mae gwireddu hawliau Plant yng Nghymru'

1. Cyflwyniad

Yn ystod Tachwedd 2007, fel rhan o'r broses adrodd amgen i Bwyllgor Monitro Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), cyhoeddodd Achub y Plant yr adroddiad "Aros, Edrych, Gwrando" ar ran Grŵp y cyrff anllywodraethol a oedd yn monitro'r gwaith o weithredu CCUHP. Ffrwyth gwaith helaeth a gynhaliwyd ledled Cymru a'r DU yw'r adroddiad ac mae wedi amlygu nifer o feysydd allweddol i weithredu arnynt i helpu i wireddu hawliau o dan CCUHP.

Ers cyflwyno'r adroddiad hwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y lle cyntaf, fe'i cyflwynwyd i Bwyllgor Monitro CCUHP fel rhan o'r dystiolaeth i'w hystyried mewn perthynas â Pharti Gwladwriaeth y DU.

Cyflwynwyd nifer o adroddiadau a gwybodaeth i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn ymwneud â Chymru a'r dull penodol sy'n seiliedig ar hawliau sydd wedi'i gyflwyno i CCUHP fel rhan o'r broses gasglu tystiolaeth. Yn ogystal ag adroddiad 'Aros, Edrych, Gwrando' roedd hyn yn cynnwys:

- *Hawliau ar Waith, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007).*
- *Pam fod Oed Pobl yn Mynd Fyny Ddim Lawr (Y Ddraig Ffynci 2007).*
- *Ein Hawliau Ni, Ein Stori Ni (Y Ddraig Ffynci 2007).*
- *Adroddiad Comisiynydd Plant y DU i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2008)*.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod y broses adrodd a'r gwrandawiad gyda Pharti Gwladwriaeth y DU (a gynhaliwyd yn ystod mis Medi 2008), ystyriodd Pwyllgor Monitro CCUHP y dystiolaeth amrywiol a dderbyniwyd. Derbyniwyd sylwadau terfynol y Pwyllgor yn ystod mis Hydref 2008.

Bydd y sylwadau terfynol yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gan weithio â'r cyrff anllywodraethol, partneriaid eraill a'r plant a'r bobl ifanc eu hunain. Bydd hyn yn digwydd dros y misoedd nesaf gyda'r nod o ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu ar y cyd i ddatblygu'r gwaith o wireddu CCUHP ar gyfer holl blant a phobl ifanc Cymru dros y pum mlynedd nesaf.

Mae adrannau eraill yr adroddiad hwn yn cynnwys ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i bob un o argymhellion adroddiad 'Aros, Edrych, Gwrando' ac yn amlygu gwaith parhaus mewn nifer o feysydd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

2. Deddfwriaeth

Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru:

Ddefnyddio pob dull sydd ar gael er mwyn sicrhau newid deddfwriaethol yn unol ag ymrwymiad y Cynulliad i CCUHP, gan gynnwys defnyddio mecanweithiau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i gyflwyno mesurau sy'n diwygio ac yn cydgrynhoi deddfwriaeth ar wasanaethau cymdeithasol, gofal plant, iechyd ac addysg yng Nghymru.

Ymateb

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio sicrhau Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar Blant sy'n Agored i Niwed a Thlodi Plant, gan ddefnyddio pwerau dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Bydd y Gorchymyn yn rhoi pwerau ychwanegol i Lywodraeth y Cynulliad ddeddfu ar gyfer plant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd i fodloni a chyflawni blaenoriaethau ac amserlenni Cymru.

3. Adnoddau

Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

Sefydlu'r systemau neu'r mecanweithiau sydd eu hangen fel bod modd gwneud dadansoddiad rheolaidd o'i gwariant ar blant ym mhob un o'i chyllidebau yn y dyfodol (gan gyfeirio at arferion da partïon Gwladwriaeth eraill).

Sicrhau bod y trefniadau y mae'n eu sefydlu er mwyn archwilio gweithrediad y partneriaethau plant a phobl ifanc yn cynnwys gwerthusiad o berfformiad pob un o'r 22 partneriaeth wrth drefnu cyfrifon blynyddol y gwariant cyhoeddus ar blant.

Ymateb

Trafodwyd papurau ar "Gyllidebu ar gyfer Plant" yn ystod Pwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc yn Ebrill a Mehefin 2008. Bydd nodyn technegol ar gyfran cyllideb y Cynulliad sy'n cael ei gwario ar blant yn cael ei gyhoeddi maes o law.

Roedd fersiynau terfynol y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc i fod i gael eu cyhoeddi erbyn 30 Medi 2008.

Roedd adborth ar y fersiynau drafft yn cynnwys sylwadau yn trafod i ba raddau y mae pob Cynllun yn cynnwys y wybodaeth ariannol sy'n hanfodol i sicrhau bod partneriaid yn atebol am ddarparu gwasanaethau. Yn ystod y cyfnod cynnar hwn o weithredu proses y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc, mae'n hollbwysig sicrhau bod yr agwedd hon yn gweithio'n effeithiol.

Bydd sicrhau cyllidebau unigol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc ledled yr awdurdodau lleol a'r nifer fawr o bartneriaid yn cymryd mwy o amser i'w drefnu. Bydd swyddogion yn codi'r mater hwn gyda Chyfarwyddwyr Arweiniol Partneriaethau fel rhan o'r adolygiad arfaethedig o'r Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc cyntaf yn yr hydref.

4. Cydgysylltu

Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

Sefydlu Pwyllgor Cabinet ar gyfer Plant a Phobl Ifanc gyda digon o adnoddau gwasanaeth sifil cydgysylltiedig i'w gefnogi ym mhob agwedd ar bortffolios Gweinidogion.

Cryfhau rôl y Gweinidog dros Blant (a phobl ifanc).

Ymateb

Gwnaed newidiadau i rôl Pwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc a rôl y Gweinidog dros Blant yn dilyn Etholiadau'r Cynulliad yn 2007. Cylch gorchwyl cyfredol Pwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc yw:

a. Sicrhau bod dull gweithredu strategol yn cael ei fabwysiadu wrth ddatblygu polisïau a rhaglenni er mwyn cyflawni ymrwymiadau Llywodraeth y Cynulliad i blant a phobl ifanc.
b. Sicrhau bod buddiannau plant a phobl ifanc yn cael blaenoriaeth ddyledus yn holl waith llunio polisïau'r Cabinet a Llywodraeth y Cynulliad.
c. Goruchwylio'r gwaith o weithredu CCUHP yng Nghymru a gweithredu Saith Nod Craidd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

Wrth wneud hynny, bydd Pwyllgor y Cabinet yn:

- Pennu'r blaenoriaethau polisi sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu;
- Sicrhau bod effeithiolrwydd polisïau a rhaglenni'n cael ei adolygu'n gyfnodol; a
- Sicrhau cydlyniad mentrau polisi trawsbynciol sy'n cyfrannu at wireddu blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae Pwyllgor y Cabinet yn cael ei gefnogi gan Grŵp Swyddogion sy'n cynnwys uwch swyddogion o adrannau gwahanol Llywodraeth y Cynulliad, a chan Rwydwaith Polisi ehangach, gyda'r ail yn cyfarfod bob mis i sicrhau dull cydlynol a chydgysylltiedig o ddatblygu a gweithredu polisïau.

Mae'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn cadeirio Pwyllgor y Cabinet, ac yn rhinwedd ei swydd fel Gweinidog â chyfrifoldeb portffolio dros y maes hwn, mae hi wedi ymrwymo i fonitro cynnydd pob portffolio yn Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rheolaidd yn erbyn yr ymrwymiadau a wnaed.

Mynychodd pobl ifanc o'r Ddraig Ffynci (y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru) gyfarfod Pwyllgor y Cabinet ym mis Mehefin 2008 i sôn wrth weinidogion am eu profiad o fynychu gwrandawiad cyn-sesiynol CCUHP gyda Chadeirydd Grŵp

Monitro Cyrff Anllywodraethol CCUHP, Eleri Thomas. Roedd eu presenoldeb ym Mhwyllgor y Cabinet yn gyfle i gyfnewid safbwyntiau ar nifer sylweddol o bynciau. Cafodd dealltwriaeth a gwybodaeth y bobl ifanc gryn effaith ar y gweinidogion, a chawsant wahoddiad i fynychu Pwyllgor y Cabinet mewn blwyddyn i drafod y cynnydd.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

Sefydlu Pwyllgor Craffu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc er mwyn sicrhau trefniadau trawsbynciol ar gyfer monitro a chraffu ar benderfyniadau a pholisïau Gweinidogion Cymru.

Ymateb

Sefydlodd y Cynulliad Cenedlaethol Bwyllgor Craffu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ar 16 Hydref 2007 ar ôl i'r Cynnig i sefydlu'r pwyllgor gael ei gytuno mewn cyfarfod llawn. Bydd yn bodoli gydol oes y trydydd Cynulliad.

Cylch gwaith y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yw:

> *'ystyried materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru a chyflwyno adroddiad arnynt. Caiff y Pwyllgor, yn benodol, o fewn cylch ei waith, archwilio gwariant, gweinyddiad a pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cyhoeddus eraill sy'n gysylltiedig ac ystyried adroddiadau Comisiynydd Plant Cymru.'*

5. Cynllun Gweithredu

Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

a. Sicrhau bod mwy o sylw'n cael ei roi i'r saith nod craidd ar gyfer plant a'u bod yn cael eu hadlewyrchu yng nghynllun strategol trosfwaol y llywodraeth.

b. Cynhyrchu cynllun cenedlaethol er mwyn symud ymlaen â'r saith nod craidd gyda thargedau a cherrig milltir. Fel y strategaeth genedlaethol ar gyfer gweithredu CCUHP, dylai'r cynllun gynnwys amcanion allweddol er mwyn i'r llywodraeth ymgymryd ag asesiadau o'r effaith ar hawliau plant; cynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant; a monitro gwariant cyhoeddus ar blant.

c. Cryfhau ei chanllawiau i'r 22 partneriaeth plant a phobl ifanc ar yr un cynllun y mae'n ofynnol iddynt ei gynhyrchu. Rhaid i'r cynlluniau roi pwrpas ymarferol gwirioneddol i weithredu CCUHP ac mae ar bartneriaethau angen mwy o ganllawiau, arweiniad a chefnogaeth ynglŷn â sut i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Confensiwn. Yn fwyaf penodol, rydym yn argymell bod canllawiau'n cynnwys y canlynol:

   - Mesurau a dangosyddion canlyniadau sy'n seiliedig ar hawliau er mwyn monitro cynnydd ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru gan gynnwys data wedi'i ddadgyfuno a barn ac adborth gan blant.
   - Yr angen i integreiddio amcanion allweddol er mwyn gwneud asesiadau o'r effaith ar hawliau plant; cynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant; a monitro gwariant ar blant mewn cyllidebau.
   - Gwneud rôl y cyfarwyddwr arweiniol, o ran sicrhau bod CCUHP yn cael ei weithredu, yn fwy penodol.

Ymateb

Mae swyddogion yn gweithio ar un brand a theitl ar gyfer holl bolisïau Llywodraeth y Cynulliad i blant a phobl ifanc 0-25 oed ynghyd â gwefan a fydd yn cynyddu effaith a phroffil y Saith Nod Craidd a sail hawliau holl waith Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae gwaith y Llywodraeth gyda phlant a phobl ifanc yn cael ei seilio ar CCUHP eisoes, ac yn rhinwedd ei swydd fel y Gweinidog dros Blant, mae gan Jane Hutt gyfrifoldeb penodol i arwain ar y mater hwn. Hi yw cadeirydd Pwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc a Grŵp Uwch Swyddogion sy'n ymdrin â'r mater hwn ymhlith tasgau eraill.

Mae fframwaith mesurau canlyniadau'r Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc yn defnyddio mesurau sydd eisoes ar gael ac wedi'u casglu. Amcan yr agwedd hon ar y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc yn rhannol yw dangos y cynnydd sy'n cael ei wneud

yn lleol o ran gweithredu hawliau plant a phobl ifanc, a bodloni gofynion hysbysu Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu ac yn ymgynghori ar fesurau canlyniadau priodol sy'n cefnogi'r gwaith o weithredu hawliau a sicrhau cyfrifoldeb ar y cyd ar gyfer gwella lles a darparu gwasanaethau. Bydd y mesurau'n barod erbyn Ebrill 2010 yn barod ar gyfer cylch cynllunio 2011.

Wrth i sail hawliau'r Cynlluniau ddod yn gyfarwydd i asiantaethau partner, disgwylir i'r hawliau gael eu defnyddio'n fwy penodol fel sail mewn egwyddor ar gyfer gwasanaethau a chymorth. Un o'r meysydd i'w hasesu wrth adolygu'r Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc cyntaf fydd gallu Cynlluniau i ddangos eu bod wedi rhoi ystyriaeth ganolog i hawliau wrth baratoi'r Cynlluniau. Mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau bod y camau ymarferol y disgwylir i Bartneriaethau eu cymryd yn y cyswllt hwn yn gwbl eglur, gan gynnwys tasgau'r rhai mewn awdurdodau lleol a'r sector iechyd sydd â chyfrifoldebau arweiniol dan Ddeddf Plant 2004. Datblygir y gwaith hwn yn barod ar gyfer yr ail gylch cynllunio ar gyfer 2011-14.

Fel y nodwyd uchod, bydd angen mwy o amser i drefnu cyllidebau sengl ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc ledled yr awdurdodau lleol a'r nifer fawr o bartneriaid. Bydd swyddogion yn codi'r mater hwn gyda Chyfarwyddwyr Arweiniol y Partneriaethau fel rhan o'r adolygiad arfaethedig o'r Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc cyntaf yn yr hydref.

6. Strwythurau Monitro Annibynnol

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

Ddefnyddio'r cyfle a gynigir gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (sy'n cryfhau ymwahaniad Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru) er mwyn trosglwyddo'r gwaith o ariannu'r Comisiynydd Plant oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad i'r Cynulliad Cenedlaethol, sydd erbyn hyn â swyddogaeth graffu a monitro glir.

Ymateb

Nid yw'n fwriad gan Lywodraeth y Cynulliad newid y trefniadau ariannu ar gyfer swydd Comisiynydd Plant Cymru, sy'n debyg i'r trefniadau ar gyfer ombwdsmyn eraill fel y Comisiynydd Gwasanaethau Cyhoeddus. Trafodir cyllid ar gyfer y Comisiynydd Plant gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod y ddadl flynyddol ar gyllideb Llywodraeth y Cynulliad.

7. Casglu Data

Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

Goladu, dadansoddi a chyhoeddi data ar les plant yng Nghymru, a monitro cynnydd ar hyd a lled y wlad o ran cyflawni ei saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc. Dylai adrodd yn flynyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 'gyflwr plant yng Nghymru' fel bod modd cael dadl ar y pwnc a phwyso a mesur y sefyllfa. Dylai'r data a gesglir yng Nghymru allu mesur cynnydd dros gyfnod o amser a dylai ganiatáu cymariaethau â gwledydd eraill yn y DU ac yn Ewrop.

Ymateb

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu lansio "Monitor Lles Plant ar gyfer Cymru" yn ystod mis Tachwedd 2008. Bydd y Monitor yn canolbwyntio ar y saith nod craidd sy'n sylfaen i'r Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc a bydd hefyd yn adrodd ar y targedau tlodi plant a nodir yn *"Cael Gwared ar Dlodi Ymhlith Plant yng Nghymru – Mesur Llwyddiant'*. Bydd y Monitor yn casglu data o arolygon rheolaidd cyhoeddedig a gynhaliwyd yng Nghymru, yn ogystal â chanfyddiadau allweddol o waith ymchwil sy'n canolbwyntio'n benodol ar Gymru. Bydd yn darparu data ar les plant a thlodi plant ar lefel Gymru gyfan (yn hytrach nag ar lefel awdurdod lleol). Bydd yn cynnwys cymariaethau â gwledydd yn y DU ac yn Ewrop lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol.

Mae'r Monitor yn cael ei ddatblygu gan ystadegwyr, ymchwilwyr cymdeithasol ac economegwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru.

8. Hyfforddiant/Lledaenu'r Confensiwn

Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cynulliad:

a. Ddatblygu a darparu adnoddau ar gyfer strategaeth gynhwysfawr er mwyn lledaenu gwybodaeth am egwyddorion a darpariaethau CCUHP i bob rhan o'r gymdeithas.

b. Sicrhau bod hyfforddiant ar y Confensiwn yn orfodol i bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc neu'n darparu gwasanaeth iddynt.

c. Sicrhau bod un dull gweithredu integredig ar gyfer hyfforddiant hawliau plant a lledaenu gwybodaeth.

Ymateb

Yn ddiweddar, rydym wedi dechrau ar y gwaith o ddatblygu deunyddiau i hyrwyddo CCUHP, fel sy'n ofynnol o dan Erthygl 42 y Confensiwn. Ein bwriad yw datblygu deunyddiau ar gyfer plant a phobl ifanc, rhieni a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc (e.e. athrawon, gweithwyr cymdeithasol, yr heddlu). Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig â'r argymhellion ar gyfer brand sengl fel y nodwyd yn yr ymateb i argymhelliad 5 uchod.

Rydym wedi penderfynu cychwyn gyda deunydd ar gyfer plant a phobl ifanc. Rydym hefyd wedi rhoi grant tair blynedd i Achub y Plant (Cymru) i ddatblygu deunyddiau a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol. Bydd hyn yn gysylltiedig â'r craidd cyffredin o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth wrth ddatblygu'r gweithlu plant a phobl ifanc. Bydd mesurau i godi ymwybyddiaeth ymysg rhieni yn dilyn maes o law.

Bydd Tîm Hawliau a Hawliadau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda phartneriaid ledled Cymru i ddatblygu dull gweithredu strategol ac i gytuno ar sut i'w roi ar waith yn llwyddiannus.

Dechreuodd y Tîm Hawliau a Hawliadau ar ei waith yn ystod 2008 gydag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys y Ddraig Ffynci ac Uned Hawliau newydd Achub y Plant Cymru, i ddatblygu hyfforddiant priodol ym maes hawliau plant a phobl ifanc ar gyfer athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

9. Cyfranogi

Argymhelliad 9

Gan weithio gyda phartneriaid statudol allweddol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

a. Gyflwyno deddfwriaeth, arian craidd tymor hir a chefnogaeth ganolog er mwyn sicrhau strwythurau a mecanweithiau cyfranogi cenedlaethol a lleol – gan gynnwys Draig Ffynci.

b. Datblygu a gweithredu strategaeth gyfranogi drosfwaol i Gymru.

c. Prawfesur pob polisi a chynllun er mwyn sicrhau bod pob un ohonynt yn mynd ati o ddifrif i annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, gan gynnwys a chymeradwyo'r safonau cenedlaethol ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc yng Nghymru. Dyrannu mwy o adnoddau er mwyn cefnogi datblygiad strategol cyfranogiad plant 0 i 10 oed yn y broses o wneud penderfyniadau yng Nghymru, gan gynnwys datblygu strwythurau perthnasol.

d. Hybu dealltwriaeth lawn o gyfranogiad a'r gwahanol agweddau arno a chynnwys hyn yn yr holl hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol gan sectorau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

e. Sicrhau bod gan grwpiau o blant sydd ag anghenion ychwanegol penodol yr un hawl i gymryd rhan drwy ystod o strwythurau, prosesau a chyfleoedd priodol yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Ymateb

Nid deddfwriaeth yw'r unig ffordd o ddatrys y materion hyn. Yr allwedd i sicrhau newid diwylliannol o'r natur hwn yw argyhoeddi unigolion a sefydliadau o fanteision dull cyfranogi. Mae gwaith i gyflawni hyn eisoes ar y gweill.

Rydym yn gosod y sylfaen ar gyfer Fframwaith Cyfranogiad Cenedlaethol i Gymru, gan gynnwys gweithgarwch cyfranogi lleol. Rydym wedi datblygu Canllawiau ar gyfer Strategaeth Cyfranogiad Lleol gan gydweithio ag amrywiaeth o sefydliadau partner cenedlaethol a lleol a chyda phlant a phobl ifanc. Dyma elfen allweddol o'r seilwaith a gynlluniwyd i gefnogi a datblygu cyfranogiad plant a phobl ifanc yng Nghymru. Bwriad y canllawiau yw sicrhau bod holl blant a phobl ifanc 0-25 oed yn cael cyfleoedd i fynegi eu barn a chyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau ar lefel leol. Rhoddwyd y canllawiau ar waith o 1 Ebrill 2008 gyda chyswllt i'r defnydd o arian Thema D Cymorth. Ochr yn ochr â'r broses o gyfuno ffrwd ariannu grant Cymorth a'r Grant Cynnal Refeniw dros y 2-3 blynedd nesaf, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno Mesur Cynulliad sy'n rhoi sail statudol i'r gofyniad ar awdurdodau lleol a'u partneriaid ddatblygu a gweithredu Strategaeth Cyfranogiad Lleol.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'r Consortiwm Cyfranogiad i ddatblygu unrhyw strategaeth genedlaethol a sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu.

Mae'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'i swyddogion yn ymwybodol iawn o'r angen am ariannu craidd hirdymor i sicrhau'r fframwaith cenedlaethol a lleol ar gyfer cyfranogiad a bydd y materion yn cael eu hystyried ymhellach fel rhan o drafodaethau ehangach ar Gylch Cynllunio Cyllideb 2009-10 a thu hwnt.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dechrau ar y gwaith o ddynodi Swyddogion Cyswllt Is-adrannol ar gyfer pob Is-adran. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr holl bolisïau a mentrau yn cefnogi'r arfer o gynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau. Arolygwyd Is-adran y Strategaeth Plant a Phobl Ifanc yn ddiweddar yn erbyn y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol, ac rydym yn bwriadu cynnwys y math hwn o arolygiad ledled Llywodraeth y Cynulliad. Bydd hefyd yn dod yn rhan o hyfforddiant y Swyddogion Cyswllt Is-adrannol.

Mae gwaith wedi'i gyflawni i gyfeirio cyfranogiad plant a phobl ifanc fel rhan o offeryn Porth i Bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn yn golygu y bydd mwy o blant a phobl ifanc yn cyfrannu at ddatblygu polisïau yn gynharach.

Mae sicrhau newid diwylliannol yn cymryd amser ac os nad yw'r dull presennol o berswadio adrannau Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu dulliau mwy cyfranogol yn sicrhau'r lefel ofynnol o gynnydd, byddem yn ystyried defnyddio dull mwy cadarn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi arian i Achub y Plant i gynnal y Consortiwm Cyfranogiad. Grŵp aml-asiantaeth yw hwn sy'n ganolbwynt i randdeiliaid allweddol gydgysylltu'r gwaith o ddatblygu cyfranogiad plant a phobl ifanc ym mhrosesau gwneud penderfyniadau yng Nghymru, rhannu gwybodaeth am waith cyfranogi a datblygu a hyrwyddo egwyddorion craidd ar gyfer cyfranogiad yng Nghymru. Mae un o'i is-grwpiau'n cynghori'r Consortiwm ar blant 0-10 oed. Cylch gwaith yr is-grŵp hwn yw:

- Hybu'r agenda ar gyfer cyfranogiad gan blant 0-10 oed, gan sicrhau statws a chynrychiolaeth gyfartal.
- Gwneud trosolwg o waith presennol gyda phlant 0-10 oed ac ystyried a thrafod syniadau newydd a syniadau sy'n datblygu.
- Sicrhau bod materion plant 0-10 oed yn cael sylw yng nghyfarfodydd y Consortiwm.
- Nodi bylchau yn y gwasanaeth cyfredol a nodi strategaethau i gau'r bylchau hynny.
- Sicrhau bod cyfranogiad plant 0-10 oed yn cael ei ystyried a'i gynrychioli ar is-grwpiau eraill y Consortiwm.

Yn 2007-08 a 2008-09, dynodwyd arian penodol gwerth £70,000 y flwyddyn i alluogi'r Ddraig Ffynci i weithio gyda phlant iau. Mae'n bosibl y bydd darpariaeth debyg ar gael o 2009-10 ymlaen, gan ddibynnu ar ganlyniad y gwerthusiad allanol cyfredol o'r Ddraig Ffynci.

Mae swyddogion Is-adran y Strategaeth Plant a Phobl Ifanc yn gweithio'n agos ag Adran Adnoddau Dynol Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod hyfforddiant ar gyfranogiad i swyddogion yn rhan o raglen hyfforddiant craidd Llywodraeth y Cynulliad. Er mwyn cynorthwyo swyddogion ymhellach, rydym wedi paratoi Canllawiau *Blast Off*. Canllawiau ar arferion da ym maes cyfranogiad plant a phobl ifanc yw'r rhain, wedi'u datblygu mewn partneriaeth â'r Consortiwm Cyfranogiad.

Rydym hefyd wedi datblygu safle ar fewnrwyd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc. Mae'r safle hwn yn cynnig gwybodaeth am yr holl agweddau ar Gyfranogiad Plant a Phobl Ifanc. Gall swyddogion ddefnyddio'r dolenni i nodi sut gall plant a phobl ifanc gyfrannu at eu meysydd polisi nhw.

Mae is-grŵp arall o'r Consortiwm yn ystyried hyfforddiant ac yn ceisio hybu polisi, ymarfer, hyfforddiant a safonau ansawdd ym maes cyfranogiad plant a phobl ifanc ar lefel leol a chenedlaethol, gan gynnwys hyfforddi'r hyfforddwyr.

Bwriad y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol i Gymru yw hybu dealltwriaeth o'r hyn y mae cyfranogiad yn ei olygu'n ymarferol i sefydliadau a phobl ifanc eu hunain. Mae hefyd yn cynorthwyo sefydliadau i asesu a datblygu ansawdd eu gweithgarwch cyfranogi.

Bydd y Prosiect Cyfranogiad a ariennir gan Ewrop, sy'n rhan o'r prosiect 'Cyrraedd y Nod', yn cynnig cyfle i **bob** person ifanc gymryd rhan. Mae'r holl hyfforddiant, gweithdai ac ati wedi'u haddasu i ddiwallu anghenion unigol y gynulleidfa. Bydd y contractau a ddyfernir i ddarparu'r hyfforddiant ac ati yn sicrhau bod modd addasu'r hyfforddiant a bod y contractwyr yn chwilio am bob cyfle i gynnwys grwpiau o bobl ifanc sydd ar y cyrion.

Rydym yn awyddus i weld plant a phobl ifanc o amrywiaeth eang o gefndiroedd cymdeithasol ac o bob gallu yn cyfrannu at waith Llywodraeth y Cynulliad a sefydliadau eraill yng Nghymru.

Mae lleisiau pob plentyn a pherson ifanc yn bwysig, sy'n golygu bod y Ddraig Ffynci yn ceisio gweithio gydag amrywiaeth mor eang â phosibl o blant a phobl ifanc er mwyn sicrhau ei bod mor gynrychioladol â phosibl. Oherwydd bod y Ddraig Ffynci yn cydnabod yr heriau ychwanegol sy'n wynebu grwpiau lleiafrifol wrth sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed, mae ganddynt lefydd penodol i gynrychiolwyr cydraddoldeb o'r grwpiau canlynol:

- Pobl hoyw, lesbiaid, deurywiol a thrawsrywiol.
- Pobl ifanc ag anableddau.
- Gofalwyr ifanc.
- Pobl ifanc sy'n derbyn gofal.
- Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.
- Pobl ddigartref neu bobl sydd wedi bod yn ddigartref.
- Pobl sydd wedi bod yn y system cyfiawnder ieuenctid.
- Pobl sydd â phroblemau iechyd hirdymor (ond nid anabledd).

10. Cosb Gorfforol

Argymhelliad 10

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

a. Barhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i ddiwygio'r gyfraith er mwyn rhoi amddiffyniad cyfartal i blant.
b. Sefydlu strategaeth addysg gyhoeddus a gefnogir gan fwy o gefnogaeth rianta.

Ymateb

Ysgrifennwyd ein llyfryn "Help wrth Law" gan Blant yng Nghymru gyda chymorth Grŵp Llywio 'Sdim Curo Plant, i'w ddosbarthu i bob rhiant newydd dros gyfnod o dair blynedd o fis Gorffennaf 2007 ymlaen. Ymwelwyr iechyd sy'n gyfrifol am ddosbarthu'r llyfryn. Mae'r llyfryn yn nodi barn glir Llywodraeth y Cynulliad ar gosb gorfforol:

> "Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dymuno rhoi'r cymorth angenrheidiol i rieni i ddod o hyd i ddulliau di-drais o reoli ymddygiad eu plant yn effeithiol a chyn bod y sefyllfa'n cyrraedd lefel argyfwng".

Ar hyn o bryd, mae ymwelwyr iechyd wrthi'n dosbarthu dau lyfryn a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad i bob rhiant newydd. Mae "Help wrth Law" yn canolbwyntio ar ddewisiadau amgen i gosb gorfforol. Mae 'O Frecwast i Amser Gwely' hefyd yn canolbwyntio ar rianta cadarnhaol ac yn ceisio helpu rhieni plant 0-5 oed i reoli ymddygiad eu plant. Mae trydydd llyfryn, "Ymddygiad Dros Ben Llestri mewn Plant o dan Ddeg" ar gyfer rhieni plant 5-10 oed wedi'i ddosbarthu drwy'r ysgolion. Mae copïau o bob un o'r tri llyfryn ar gael gan Wasanaethau Gwybodaeth Plant lleol.

11. Plant Carcharorion

Argymhelliad 11

Gan weithio gyda phartneriaid statudol allweddol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

a. Sicrhau bod awdurdodau lleol yn trin plant a theuluoedd troseddwyr fel grŵp agored i niwed â blaenoriaeth yn unol â'r canllawiau i bartneriaethau plant a phobl ifanc lleol.

b. Rhoi gwybod i wasanaethau prif ffrwd, gan gynnwys gwasanaethau addysg, o'r dystiolaeth o anghenion y grŵp hwn, a chefnogi arfer da wrth ddiwallu eu hanghenion.

c. Darparu adnoddau cynaliadwy i wasanaethau wedi'u targedu (yn y carchar ac yn y gymuned) ar gyfer plant a theuluoedd troseddwyr.

Ymateb

Mae ein canllawiau ar Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc, 'Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau' (Medi 2007), yn nodi y dylai Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc gwmpasu elfennau allweddol o strategaethau lleol sy'n cynnwys plant a phobl ifanc y mae eu rhieni yn gwahanu, gan gynnwys aelodau o deuluoedd troseddwyr. Roedd cynlluniau i fod i gael eu cwblhau yn barod i'w cyhoeddi erbyn 30 Medi 2008. Bydd y broses o ystyried y Cynlluniau terfynol yn gyfle i werthuso'r agwedd hon ar y polisi a'r camau sy'n cael eu cymryd gan bartneriaid lleol. Darparwyr gwasanaethau lleol sy'n gyfrifol am benderfyniadau yn ymwneud ag adnoddau.

12. Amddiffyn Plant

Argymhelliad 12

Gan weithio gyda phartneriaid statudol allweddol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

a. Egluro ei strategaeth drosfwaol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant. Yn fwyaf penodol, mae angen iddi fod yn gliriach sut y mae'r gwahanol strategaethau sy'n cael effaith ar hawliau a lles plant yn cysylltu â'i gilydd.

b. Datblygu strategaeth ar fyrder er mwyn rhoi gwybodaeth i blant a phobl ifanc ynglŷn â phwy i gysylltu â nhw os ydynt yn poeni am gamdriniaeth.

c. Darparu adnoddau ar gyfer ymgyrch addysg gyhoeddus i alluogi cymunedau i adnabod camdriniaeth a gweithredu er mwyn atal plant a phobl ifanc rhag cael eu cam-drin.

d. Cymryd camau er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu cam-drin yn gallu cael gafael ar wasanaethau therapiwtig priodol sy'n canolbwyntio ar y plentyn, a hynny yn ôl y galw.

e. Sicrhau dulliau effeithiol a rheolaidd o fesur cam-drin plant a phobl ifanc yng Nghymru a thrais yn eu herbyn.

f. Datblygu pecyn safonol sylfaenol o hyfforddiant ar amddiffyn plant i'w ddefnyddio yn y gwahanol broffesiynau, gan sicrhau bod **pob** gweithiwr proffesiynol yn datblygu'r un ymwybyddiaeth ac yn meddu ar bopeth sydd ei angen i ddiogelu plant a phobl ifanc.

Ymateb

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio i sicrhau bod dull gweithredu aml-asiantaeth yn cael ei ddefnyddio i ddiogelu plant yng Nghymru. O fewn Llywodraeth y Cynulliad, mae grŵp o swyddogion (Grŵp Swyddogion Diogelu Plant Cynulliad Cymru) yn cyfarfod bob chwarter i ystyried materion diogelu plant. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyfarwyddiaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, AGGCC, Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru, Iechyd y Cyhoedd a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol, Addysg a Dysgu Gydol Oes ac Estyn.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cyfarfod bob chwarter gyda grŵp ehangach sy'n cynnwys partneriaid allanol (Grŵp Cynghori Diogelu Plant Cynulliad Cymru). Mae'r grŵp hwn yn cynnwys Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Amddiffyn Plant Ar-lein Cymdeithas Swyddogion yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, Timau Troseddau Ieuenctid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, meddygon a nyrsys dynodedig, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y gwasanaeth ambiwlans, Gyrfa Cymru, y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant, y Fforwm Amddiffyn Plant, awdurdodau lleol a grwpiau ffydd. Mae'r grwpiau hyn yn cyfrannu at lunio agenda, polisïau a chanllawiau ym maes amddiffyn plant.

Mae'r Byrddau Lleol Diogelu Plant wedi bod yn weithredol ers mis Hydref 2006. Er mwyn cefnogi gwaith y Byrddau, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad 'Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004'. Mae'r ddogfen hon wedi'i dosbarthu'n eang ac wedi cael ymateb da. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi darparu hyfforddiant i alluogi'r Byrddau newydd i sefydlu agenda ddiogelu ynghyd â gweithdy dau ddiwrnod blynyddol i ystyried materion yn fwy cyffredinol.

Mae Is-adran Ystadegau Llywodraeth y Cynulliad yn casglu data gan awdurdodau lleol ar nifer y plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant. Mae'r data yn cael ei wahanu wedyn ar sail categori'r gamdriniaeth a ddioddefir gan y sawl sydd ar y gofrestr ac mae'n adlewyrchu nifer y plant yr effeithir arnynt, nid nifer yr achosion a gofnodwyd. Bydd ystadegau yn ymwneud ag achosion sy'n mynd i'r llys a'r rhai sy'n arwain at erlyniad llwyddiannus yn cael eu casglu yn Whitehall gan nad yw Gwasanaethau Llys yn faes sydd wedi'i ddatganoli. Mae'n bosibl na fydd yr ystadegau hyn yn adlewyrchu digwyddiadau go iawn yn gywir.

Mae Byrddau Lleol Diogelu Plant yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant yn eu hawdurdodau lleol. Mae'r Byrddau wedi sefydlu is-grwpiau hyfforddi ac mae rhai ohonynt yn darparu hyfforddiant ar y cyd â Byrddau partner. Mae'r Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan wedi'u hadolygu a'u hail-gyhoeddi yn ddiweddar gyda chymorth Llywodraeth y Cynulliad. Mae canllawiau ar ddiogelu plant wedi'u cyhoeddi ar gyfer y rhai sy'n gweithio ym maes addysg yn benodol ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymgysylltu'n llawn â gweithwyr iechyd proffesiynol i sicrhau bod yr agenda yn cael ei rhoi ar waith. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi datblygu'r Fframwaith Asesu Cyffredin i sicrhau dull gweithredu cyffredin ledled Cymru.

Argymhelliad 13

Dylai Llywodraeth y DU weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn sicrhau:

Bod agwedd gyson tuag at gefnogi pobl ifanc sy'n rhoi tystiolaeth mewn llys yn cael ei datblygu, gyda rhwydwaith cenedlaethol o wasanaethau yn cynnig cefnogaeth i dystion ifanc.

Ymateb

Er mai mater i Lywodraeth y DU yw hwn yn sylfaenol, ac nid yw wedi'i ddatganoli, rydym yn ymwybodol bod Gwasanaethau'r Llys wedi datblygu rhaglen gymorth ar gyfer tystion. Yn ogystal, mae mesurau arbennig ar gael i gynorthwyo tystion sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant a phobl ifanc, wrth roi tystiolaeth yn y llys. Mae'r rhain yn cynnwys dewis rhoi tystiolaeth drwy gyswllt fideo neu du ôl i sgrin os yw'r unigolyn yn dymuno mynychu'r llys a rhoi tystiolaeth yn bersonol.

13. Plant sy'n Derbyn Gofal

Argymhelliad 14

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid statudol eraill, sicrhau:

a. Pwyslais parhaus a chynyddol ar gynnig ystod o leoliadau o safon uchel er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc.

b. Bod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn gallu cadw lleoliadau diogel a hapus.

c. Gwelliannau sylfaenol mewn gwasanaethau rheng flaen ym maes iechyd (yn enwedig iechyd meddwl), addysg a gwasanaethau cymdeithasol i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

d. Bod pob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru'n gallu cael cymorth ac eiriolaeth annibynnol er mwyn mynegi pryderon.

e. Mwy o ddewisiadau llety ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal, gan gynnwys ehangu'r defnydd o lety â chymorth a galluogi mwy o bobl ifanc i aros mewn lleoliadau maeth.

Ymateb

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i fuddsoddi yn yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant, cronfa ddata draws-sector o ddarpariaeth lleoliadau ac adnodd comisiynu a reolir gan yr Uned Ddata Llywodraeth Leol, i helpu awdurdodau lleol i sicrhau bod lleoliadau'n cyfateb i anghenion yn well ac i wella'r gwaith o gomisiynu lleoliadau gan awdurdodau lleol. Cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad reoliadau a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2007 i gryfhau trefniadau ar gyfer lleoli plant ac mae'n adolygu Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal maeth a chartrefi plant.

Yn ddiweddarach eleni bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ar strategaeth ar gyfer plant sy'n agored i niwed (gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal). Bydd y strategaeth yn adeiladu ar gynnydd a wnaed hyd yn hyn drwy ein rhaglen Rhoi Plant yn Gyntaf. Y prif gyfryngau a ddefnyddir i roi'r strategaeth ar waith yw'r cymalau ar y cyd a sicrhawyd gennym yn y Mesur Plant a Phobl Ifanc a Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar Blant sy'n Agored i Niwed a Thlodi Plant. Bydd y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn rhoi pwerau ehangach i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddeddfu i wella gwasanaethau i blant sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal.

Bydd yr adolygiad o ddarpariaeth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, yn helpu Llywodraeth y Cynulliad i gynllunio gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn y dyfodol.

Mae'r Mesur Plant a Phobl Ifanc yn cynnwys nifer o gymalau i wella addysg a lles plant sy'n derbyn gofal.

Mae gan Lywodraeth y Cynulliad ymrwymiad hirdymor i sicrhau bod yna ddarpariaeth eiriolaeth effeithiol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc. Rydym yn llunio Fframwaith Gwasanaeth newydd ar gyfer Darpariaeth Gwasanaethau Eiriolaeth y Dyfodol yng Nghymru a fydd yn cynnwys Gwasanaeth Eiriolaeth a Chyngor Cenedlaethol newydd i ddarparu pwynt cyswllt unigol 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc a gwasanaeth eiriolaeth arbenigol integredig ar gyfer iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg a gomisiynir yn lleol neu'n rhanbarthol gan y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

Bydd strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant sy'n agored i niwed yn cynnwys nifer o argymhellion i wella gwasanaethau i'r rhai sy'n gadael gofal, gan gynnwys caniatáu i'r rhai sy'n gadael gofal barhau i aros gyda'u gofalwyr nes eu bod yn 21 oed a dileu'r rhwystrau ariannol sy'n atal gofalwyr rhag gwneud hynny

Argymhelliad 15

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

Fonitro'n ofalus sut y gweithredir rheoliadau sy'n ymwneud â maethu preifat er mwyn sicrhau bod y trefniadau newydd yn gweithio'n effeithiol wrth ganfod a chefnogi plant a phobl ifanc sydd yn y sefyllfaoedd hyn.

Ymateb

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn cynnal arolwg o awdurdodau lleol i ganfod sut maent yn gweithredu'r rheoliadau. Yn dilyn dadansoddiad o'r sefyllfa, cynhelir gwaith pellach gyda'r awdurdodau i nodi arferion da a meysydd i'w gwella ynghyd â chynhadledd i ledaenu'r canfyddiadau.

14. Iechyd

Argymhelliad 16

Gan weithio gyda phartneriaid statudol allweddol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

a) CYFREDINOL

- Blaenoriaethu targedau iechyd *Cael Gwared ar Dlodi Plant yng Nghymru – Mesur Llwyddiant a* darparu digon o adnoddau i'r *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol.*

b) ANGHYDRADDOLDEBAU

- Datblygu gwasanaethau wedi'u targedu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ar y cyrion ledled Cymru.

c) BWYDO AR Y FRON

- Hybu hawliau mamau sy'n bwydo ar y fron, yn enwedig y rhai hynny sydd mewn teuluoedd heb lawer o adnoddau, drwy newid statudol a gwell cefnogaeth.

d) BEICHIOGRWYDD YMHLITH MERCHED IFANC YN EU HARDDEGAU

- Sicrhau bod addysg rhyw o safon uchel yn cael ei darparu i bob plentyn mewn ysgol gynradd mewn ffyrdd sy'n cyrraedd y rhai sydd â'r risg fwyaf.

e) IECHYD MEDDWL

- Sefydlu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu sydd â phroblemau iechyd meddwl.
- Comisiynu arolwg o statws iechyd meddwl plant Cymru.
- Darparu digon o adnoddau ar gyfer *Busnes Pawb* a'r camau gweithredu sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn y *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol*.
- Ailgyflwyno gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed i wasanaethau eraill ar gyfer plant er mwyn sicrhau gofal cyfannol sy'n adlewyrchu'r cysylltiad agos rhwng iechyd meddwl plant a'r ffactorau cymdeithasol a biolegol sy'n effeithio ar eu hiechyd cyffredinol.
- Atal yr arfer o anfon pobl ifanc i wardiau iechyd meddwl ar gyfer oedolion.

Ymateb

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol wedi'i gomisiynu i archwilio'r dystiolaeth a chyflwyno argymhellion ar sut y gellir mynd i'r afael â'r targedau iechyd. Mae'r argymhellion yn cael eu hadolygu gan swyddogion.

Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yn seiliedig ar ein Saith Nod Craidd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Mae'r seithfed Nod Craidd yn datgan na ddylai unrhyw blentyn neu berson ifanc fod o dan anfantais oherwydd tlodi. Bydd y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yn cyfrannu at gyflawni'r nod hwn drwy wella ansawdd a lleihau amrywiadau mewn gwasanaethau drwy bennu safonau cenedlaethol. Yn ogystal â bod yn berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol, mae'r safonau hefyd yn berthnasol i wasanaethau llywodraeth leol eraill fel addysg, tai, hamdden a thrafnidiaeth.

Mae Strategaeth Bwydo ar y Fron Llywodraeth Cynulliad Cymru, '*Buddsoddi mewn Gwell Cychwyn: hybu bwydo ar y fron yng Nghymru'*, yn gwneud argymhellion ar gyfer ffyrdd o gynorthwyo ac annog mamau a darpar-famau yng Nghymru i fwydo eu babanod ar y fron.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi creu Rhaglen Genedlaethol newydd i hybu bwydo ar y fron i'r mamau ieuengaf yng Nghymru. Mae'n cynnwys arian i alluogi gweithwyr iechyd proffesiynol a'r sector gwirfoddol i gefnogi gwaith mewn cymunedau ac ysgolion ledled y wlad. Mae'r Rhaglen hefyd yn cynnwys darpariaeth i wneud mwy o waith i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o fanteision bwydo ar y fron i famau, babanod a'u teuluoedd.

Mae enghreifftiau o weithgareddau sy'n cael eu hargymell yn y Rhaglen Genedlaethol yn cynnwys Cynllun Grant newydd i ddatblygu rhagor o Grwpiau Cymorth Bwydo ar y Fron ledled y wlad. Bydd y rhain yn canolbwyntio'n benodol ar ddiwallu anghenion menywod ifanc nad ydynt, o bosibl, yn dewis ymuno â'r grwpiau sydd eisoes yn bodoli. Dylid annog yr Ymddiriedolaethau i hyfforddi Cynorthwywyr Gofal Iechyd i'w galluogi i ddarparu cymorth un-i-un i'r mamau ieuengaf.

Mae Ymgyrch Ymwybyddiaeth Bwydo ar y Fron 2008 yng Nghymru yn canolbwyntio ar y mamau ieuengaf sydd leiaf tebygol o fwydo eu babanod ar y fron. Un o bryderon menywod ifanc yw'r angen i fwydo ar y fron yn gyhoeddus. Mae Cynllun Croesawu Bwydo ar y Fron Llywodraeth y Cynulliad yn annog busnesau a chyrff cyhoeddus i arddangos arwydd sy'n datgan eu cefnogaeth i famau sy'n bwydo ar y fron. Mae pob llyfrgell, amgueddfa a chanolfan hamdden yng Nghymru yn cymryd rhan yn y cynllun hwn. Ar hyn o bryd, nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru'r pŵer deddfwriaethol i lunio mesur mewn perthynas â'r mater hwn.

Mae'r CD dwyieithog, rhyngweithiol, 'Making Sense of Growing and Keeping Safe', wedi'i roi i bob ysgol gynradd a gynhelir yng Nghymru er mwyn helpu i gyflwyno'r Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol newydd. Cydgysylltwyr Ysgolion Iach lleol sy'n arwain y gwaith o ddosbarthu'r CD a darparu hyfforddiant yn lleol yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Ysgolion ac awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu addysg rhyw a pherthnasoedd effeithiol mewn ysgolion.

Yn ôl strategaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Busnes Pawb': 'Ni ddylai unrhyw blentyn gael ei allgáu rhag derbyn gwasanaethau iechyd meddwl ar y sail fod ganddo/i anabledd dysgu'. Mae hyn yn allweddol o ran bodloni egwyddorion mynediad, peidio â gwahaniaethu a chynhwysiant cymdeithasol.

Dylai'r adroddiad ar adolygiad darpariaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, a gynhelir gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, gael ei gwblhau yn 2008. Bydd yr adolygiad hwn yn helpu Llywodraeth y Cynulliad i gynllunio gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn y dyfodol.

Mae gwaith hefyd wedi dechrau ar gyflwyno templed mapio o ddarpariaeth y GIG yng Nghymru. Bydd y templed yn cynnig system gasglu data ar-lein flynyddol sy'n disgrifio gwasanaethau a buddsoddiad ac yn olrhain newid o flwyddyn i flwyddyn. Bydd mapio pellach yn sicrhau bod y system gasglu data ar-lein flynyddol yn parhau i ddatblygu, gan sicrhau bod system fapio'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn cael ei chynnal a'i hymestyn. Cyhoeddir canfyddiadau'r flwyddyn gyntaf yn 2008.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' ac mae £4.8 miliwn ychwanegol - £1m yn 2008-09 ac £1.6m a £2.2m yn y blynyddoedd sy'n dilyn – wedi'i ddyrannu i Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed. Mae hyn yn dangos bod y gwasanaethau hyn yn flaenoriaeth i Lywodraeth y Cynulliad. Yn ogystal, mae tua £6.5m wedi'i ddyrannu i wasanaethau cynghori mewn ysgolion ar gyfer yr un cyfnod.

Mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn cael eu darparu gan bob sector, gan gynnwys y gwasanaeth iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac adrannau addysg awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau gwirfoddol. Mae iechyd meddwl a lles plant, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed, yn flaenoriaeth i Lywodraeth y Cynulliad. Sicrhaodd *Busnes Pawb* bod sawl asiantaeth yn gyd-gyfrifol am Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed i helpu i roi dull gweithredu cynhwysfawr ar waith ym maes iechyd meddwl plant ac i ddatrys y problemau a gafwyd.

Mae Deddf Iechyd Meddwl 2007 yn ei gwneud hi'n ofynnol i reolwyr ysbytai sicrhau bod cleifion o dan 18 oed sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty oherwydd anhwylder meddwl yn cael eu cadw mewn amgylchedd sy'n briodol i'w hoed. Yng Nghymru a Lloegr cydnabyddir nad oes modd cyflwyno'r ddarpariaeth hon yn syth oherwydd prinder gwelyau. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda chomisiynwyr i roi'r gofyniad deddfwriaethol newydd hwn ar waith.

15. Pobl Ifanc Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol

Argymhelliad 17

Gan weithio gyda phartneriaid statudol allweddol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

a. CYMORTH

- Dyrannu digon o adnoddau i gynyddu nifer y grwpiau cymorth sydd eu hangen er mwyn rhoi cyngor priodol i'w hoed i'r bobl hynny sy'n 'dod allan' fel lesbiaid, hoywon a phobl ddeurywiol.

b. BWLIO HOMOFFOBIG

- Sicrhau mwy o gefnogaeth i weithredu strategaethau gwrth-fwlio yn ysgolion a cholegau Cymru, gan gynnwys cyflwyno deunyddiau hyfforddi Stonewall.
- Cynnwys materion yn ymwneud â lesbiaid, hoywon a phobl ddeurywiol yn fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol y Cwricwlwm Cenedlaethol, a monitro eu gweithrediad mewn ysgolion ledled Cymru.

c. HYFFORDDIANT

- Sicrhau bod cynghorwyr ac athrawon mewn ysgolion yn cael eu hyfforddi i ddeall materion yn ymwneud â lesbiaid, hoywon a phobl ddeurywiol, a'u bod yn ddigon hyderus i drafod hunaniaeth a pherthnasoedd rhywiol ac i fynd i'r afael â bwlio homoffobig.
- Sicrhau bod hyfforddiant cydraddoldeb gorfodol ar gael i lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru, cyn iddynt ymgymryd â'u dyletswyddau, ac ehangu'r dyletswyddau sydd gan Lywodraethwyr Ysgolion yng Nghymru i hybu cydraddoldeb rhywiol a hiliol i gynnwys hybu cydraddoldeb i lesbiaid, hoywon a phobl ddeurywiol.

Ymateb

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi canllawiau newydd ar fwlio homoffobig yn ystod gwanwyn 2009 ac mae wedi ariannu'r gwaith o gyfieithu DVD 'Allan ag e' Stonewall a'r gost o gynhyrchu copïau ar gyfer pob ysgol uwchradd yng Nghymru.

Mae'r cwricwlwm Addysg Bersonol a Chymdeithasol diwygiedig, a fydd ar waith o fis Medi 08 ymlaen, yn pwysleisio'r angen i barchu gwahaniaethau rhwng pobl a bod yn sensitif iddynt. Bydd Estyn yn monitro llwyddiant y cwricwlwm mewn ysgolion.

Mae'r strategaeth gynghori ar gyfer ysgolion wedi nodi cyfeiriadedd rhywiol a pherthnasoedd fel elfen allweddol o'r hyfforddiant a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i gynghorwyr yng Nghymru.

O dan adran 22 Deddf Addysg 2002 mae gan bob awdurdod lleol ddyletswydd i sicrhau bod pob llywodraethwr yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant di-dâl i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol. Byddai'r ddyletswydd gyfreithiol hon yn cynnwys unrhyw hyfforddiant a/neu wybodaeth sydd ei hangen ar lywodraethwyr i gyflawni dyletswyddau yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb rhywiol a hiliol, gan gynnwys unrhyw ddyletswyddau i hybu cydraddoldeb yn y meysydd hyn. Nid oes angen cynnig gwneud hyfforddiant o'r fath yn orfodol oherwydd bod y sail gyfreithiol i sicrhau bod gan lywodraethwyr hyfforddiant yn y meysydd hyn eisoes yn bodoli.

16. Plant Anabl

Argymhelliad 18

Gan weithio gyda phartneriaid statudol allweddol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

a. Adolygu cynnydd y *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol* a darparu cerrig milltir cynyddrannol, a dyrannu cyllideb er mwyn gweithredu'r safonau ar gyfer plant anabl.

b. Datblygu proses o gasglu data ystadegol yn ymwneud â phlant a phobl ifanc anabl, yn enwedig mewn perthynas â diogelu, gwahardd o'r ysgol, amddiffyn a gofal.

c. Datblygu gwasanaethau i sicrhau bod plant a phobl ifanc anabl yn cael eu cefnogi er mwyn iddynt allu cymryd rhan mewn ystod o gyfleoedd yn eu cymunedau, ac mewn darpariaeth chwarae a hamdden.

d. Gweithredu argymhellion Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn gwella gwasanaethau pontio ar gyfer plant a phobl ifanc anabl.

e. Monitro partneriaethau lleol ar sail safonau penodedig sylfaenol er mwyn gwella'r gefnogaeth i deuluoedd drwy ddarparu mwy o gefnogaeth yn y cartref a gwasanaethau gwyliau byr, yn enwedig i'r plant sydd â'r angen mwyaf.

f. Datblygu system i fonitro'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ar sail angen a aseswyd er mwyn sicrhau bod y cyfarpar priodol ar gael i bob plentyn anabl i'w alluogi i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant, chwarae a hamdden.

g. Rhoi hawl statudol i blant anabl gael manteisio ar wasanaethau datblygu plant o'u genedigaeth (neu'r adeg y rhoddir diagnosis).

Ymateb

Mae Offeryn Archwilio Hunanasesu (SAAT) y we wedi'i ddatblygu fel rhan o'r system rheoli perfformiad ar gyfer y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i Blant, i'w ddefnyddio gan bob asiantaeth statudol sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

Mae Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc Lleol yn defnyddio data SAAT i nodi cynnydd yn erbyn camau gweithredu allweddol y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ac i rannu enghreifftiau o arferion gorau. Mae'n galluogi sefydliadau i fyfyrio ar y systemau a'r prosesau sydd ganddynt ar waith, nodi cryfderau, rhwystrau a meysydd i'w datblygu ymhellach. Mae'r SAAT yn cael ei gwblhau bob blwyddyn fel rhan o broses gylchol o adolygu ac ail-werthuso parhaus.

Mae adolygiad tair blynedd o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol wedi cychwyn i sicrhau bod ei safonau a'i gamau gweithredu allweddol yn addas i'r diben o hyd. Bydd y gwaith o gwmpasu'r adolygiad yn cychwyn ym mis Medi 2008.

O ran ariannu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i Blant, mae'r safonau a'r camau gweithredu allweddol yn rhychwantu cyfrifoldebau partneriaethau a meysydd gwasanaeth lleol ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn neilltuo adnoddau i wella mynediad, cydraddoldeb a safonau darpariaeth ar draws nifer o strategaethau a pholisïau a fydd yn cyfrannu at weithredu strategaeth 10 mlynedd y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi pwyslais sylweddol ar anghenion plant anabl a'u teuluoedd, ac mae Pennod 5 y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc anabl. Hawl plant a phobl ifanc anabl i gael eu gwerthfawrogi a chael yr un cyfle i lwyddo a chymryd rhan mewn cymdeithas â'u cyfoedion nad ydynt yn anabl yw'r ethos.

Fis Rhagfyr 2007, ymrwymodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i weithio ar draws y portffolios i wella gwasanaethau i blant a phobl ifanc anabl. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl, 'Hawliau ar Waith i Blant a Phobl Ifanc Anabl yng Nghymru', sy'n cynnwys aelodau o'r sector gwirfoddol ac uwch swyddogion, i gynghori Gweinidogion a symud ymlaen â'r gwaith.

Amcangyfrifir bod awdurdodau lleol yn gwario tua £46 miliwn bob blwyddyn ar blant anabl a bod y GIG yn gwario bron i £16 miliwn. Roedd grant untro gwerth £1.54 miliwn ar gael gan Lywodraeth y Cynulliad i awdurdodau lleol yn 2007-2008 i hybu gwyliau byr i deuluoedd plant sydd ag anableddau. Yn amodol ar fonitro'r grant hwnnw a chyngor y Grŵp Gorchwyl, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn penderfynu ar y ffordd orau o dargedu adnoddau yn 2008-09 a thu hwnt. Yn ogystal, mae Gweinidogion wedi cytuno ar gymal ar y cyd yn y Mesur Plant a Phobl Ifanc i osod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer gwasanaethau gwyliau byr i blant anabl yn eu hardaloedd.

Mae Cam Allweddol 5.2 y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yn datgan bod gan blant a phobl ifanc anabl hawl gyfartal i wasanaethau chwarae a hamdden, gan gynnwys cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau, clybiau ar ôl yr ysgol a darpariaeth gyn ysgol, gyda chymorth priodol os oes angen. Mae data SAAT yn dangos bod yr asiantaethau statudol yn gwneud cynnydd tuag at wella gwasanaethau chwarae a hamdden i blant a phobl ifanc anabl. Yn ogystal, mae £1 miliwn o gyllideb Cymorth 2008-09 ymlaen ar gael i sicrhau bod plant a phobl ifanc anabl yn gallu defnyddio mwy o wasanaethau chwarae a hamdden ac i ddatblygu gwasanaethau o'r fath.

Mae rhywfaint o'r data hwn eisoes yn cael ei gasglu'n ganolog gan Lywodraeth y Cynulliad: enghraifft dda o hyn yw'r data yn ymwneud â gwahardd disgyblion ysgol. O ran yr elfennau eraill, dyma fater sy'n achosi mwy o bryder ac mae'r gwaith o gasglu data eisoes wedi cychwyn neu'n cael ei ystyried yn ofalus, gan gynnwys data ym meysydd diogelu, amddiffyn a gofal.

O safbwynt gwybodaeth a gesglir o ffurflenni gwasanaethau cymdeithasol, byddwn yn codi'r mater gyda'r Gweithgor Technegol ar gyfer Ystadegau Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Gofynnir i'r Gweithgor Technegol ystyried a yw'r ffynonellau gwybodaeth cyfredol am anabledd yn ddigonol, ac os nad ydynt, i nodi beth sydd angen ei wella fwyaf.

Fis Rhagfyr 2006, cyhoeddwyd bod £1miliwn ychwanegol ar gael ar gyfer rhagor o gyfleusterau chwarae i blant anabl. Ymatebodd pob Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn gadarnhaol i'r dyraniad ychwanegol hwn i'w grant Cymorth yn 2007-2008. Mae'r arian hwn ar gyfer cyfleusterau chwarae i blant anabl yn parhau dros dair blynedd y gyllideb newydd. Mae'r partneriaethau wedi gwneud defnydd da o'r arian ychwanegol hwn. Roedd y gweithgareddau a gynhaliwyd yn amrywiol ac yn dangos defnydd llawn dychymyg o'r arian. Mae'r arian hwn ar gyfer chwarae i'r anabl wedi'i ddefnyddio i gyflawni un o gamau gweithredu allweddol y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol: bod plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal i wasanaethau chwarae a hamdden, gyda chymorth priodol os oes angen.

Roedd cam 3 Adolygiad y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar Anghenion Addysgol Arbennig yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc yn gadael yr ysgol i fynd i addysg bellach neu waith. Cyflwynodd y Pwyllgor 47 o argymhellion, a derbyniodd Llywodraeth y Cynulliad y rhan fwyaf ohonynt.

Rydym bellach wedi creu Grŵp Cyfeirio Strategol Allanol (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r meysydd Addysg, Iechyd, Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg Bellach, Addysg Uwch, sefydliadau cyflogwyr yn ogystal â Gyrfa Cymru a Sgiliau Cymru), i ystyried sut gallwn ni weithredu'r prif argymhellion mewn ffordd ystyrlon. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp ym mis Hydref 2007 ac yn y tri chyfarfod ers hynny mae nifer o is-grwpiau wedi'u sefydlu gyda chylch gwaith i ddatblygu cynlluniau gweithredu i ymdrin ag elfennau gwahanol y mater hwn.

Un o argymhellion allweddol Adolygiad y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau oedd penodi gweithwyr trosglwyddo allweddol ac rydym wrth ein bodd bod £500,000 eisoes wedi'i sicrhau ar gyfer bob un o'r tair blynedd o 2008-09 ymlaen i benodi nifer o weithwyr trosglwyddo allweddol ychwanegol. Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a'r Is-adran Cyfleoedd Dysgu Ieuenctid ac Oedolion i sicrhau arian cyfatebol Cronfa Gymdeithasol Ewrop (o 2008-09 ymlaen) i ddatblygu rôl y gweithwyr hyn ymhellach i gynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n gadael yr ysgol ac yn symud i addysg bellach a byd gwaith. Rydym wedi gofyn i Rwydwaith Cydlynu Gofal Dros y DU (y prif sefydliad rhwydweithio sy'n hybu ac yn cefnogi gwaith allweddol ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd yng Nghymru a Lloegr) i reoli'r broses recriwtio a'r gwaith o ddatblygu strwythur hyfforddiant a chymorth ar ein rhan.

Bydd strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant sy'n agored i niwed yn seiliedig ar ymyrraeth a chymorth cynnar i deuluoedd. Rydym wedi darparu arian grant i awdurdodau lleol am 2 flynedd o 2007/08 i roi cymorth cynnar i blant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd ac rydym yn rhannol gyfrifol am ariannu gweithiwr datblygu gofal cymorth o fewn y Rhwydwaith Maethu i hybu'r defnydd o ofal cymorth.

Byddwn yn parhau i fonitro gwariant Cymorth a sicrhau bod partneriaethau yn cyfiawnhau gostyngiad o fwy na 10% yn y thema "Chwarae, hamdden a chyfoethogi". Yn ogystal, gofynnir i bartneriaethau gyflwyno adroddiad tua diwedd Mehefin 2008 ar effaith y prosiectau chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc yn 2007-08.

Yn 2008-09, bydd £225,000 ychwanegol ar gael i ddatblygu cyfleusterau newid ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anableddau, i'w galluogi i gymryd rhan yn llawn mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden ehangach. Mae'r grŵp gorchwyl Hawliau ar Waith ar gyfer Plant a Phobl Ifanc Anabl wrthi ar hyn o bryd yn ystyried sut i gryfhau canllawiau yn y maes hwn ar gyfer 2009-10. Dosbarthwyd £1miliwn ychwanegol drwy'r grant Cymorth i gynnal mwy o gyfleusterau chwarae i blant sydd ag anableddau. Bydd yr arian hwn yn parhau am dair blynedd arall.

Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru yn cydnabod y bydd plant anabl a'u teuluoedd angen cymorth penodol gan wasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg, gan gynnwys gwneud diagnosis neu adnabod anawsterau yn gynnar ac ymyrraeth gynnar ac effeithiol. Byddant angen cymorth gan wasanaethau tai, trafnidiaeth a hamdden hefyd. Dylai gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio i ddatblygu plentyn anabl gynnwys asesiad amserol o anghenion a chryfderau pob plentyn, gan gynnwys diagnosis os a phan yn briodol, a dylai gwasanaethau gael eu darparu ar y cyd ac yn brydlon i ddiwallu'r anghenion asesedig hynny.

17. Tlodi Plant

Argymhelliad 19

Gan weithio gyda phartneriaid statudol allweddol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

a. Sefydlu mecanweithiau er mwyn mesur tlodi difrifol a pharhaus a thargedu adnoddau tuag at y rhai sydd â'r angen mwyaf.

b. Prawfesur holl bolisïau'r llywodraeth o safbwynt tlodi plant (i'w ymestyn i awdurdodau lleol a phob corff cyhoeddus).

c. Ystyried anghenion plant sy'n byw mewn cymunedau gwledig ac ardaloedd trefol nad ydynt wedi'u targedu gan y llywodraeth gyda golwg ar drafnidiaeth, chwarae ac adloniant.

d. Cymryd camau i roi sylw i'r prinder tai fforddiadwy sydd yng Nghymru a gwella'r stoc dai bresennol.

Ymateb

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio dull Llywodraeth y DU o fesur tlodi. Ar ôl 2004-05 mae Llywodraeth y DU yn defnyddio tri dangosydd i fesur cynnydd ar dlodi plant: incwm isel absoliwt (60% o ganolrif incwm 1998/99 wedi'i godi er mwyn ystyried chwyddiant), incwm isel cymharol (60% o ganolrif incwm cyfredol) a chyfuniad o incwm isel cymharol ac amddifadedd perthnasol (70% o ganolrif incwm cyfredol ac amddifadedd perthnasol). Datblygwyd dull hirdymor y Llywodraeth o fesur tlodi plant yn dilyn ymgynghoriad helaeth dan arweiniad yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Fis Medi 2008, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynhyrchu Monitor Lles Plant i Gymru, i olrhain amrywiaeth o agweddau ar ansawdd bywyd plant a phobl ifanc yng Nghymru, gan gynnwys tlodi plant. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn defnyddio'r Monitor i fesur ei chynnydd tuag at gyrraedd ei cherrig milltir a'i thargedau ym maes tlodi plant.

Fel rhan o Gronfa Syniadau Newydd Llywodraeth y Cynulliad (sy'n cynnig hyd at £10,000 o gymorth ar gyfer prosiectau ymchwil bach), cymeradwywyd cais am arian gan Achub y Plant (Cymru) i gynnal astudiaeth gwmpasu i ymchwilio i amgylchiadau plant sy'n byw yn y tlodi mwyaf dwys a pharhaus yng Nghymru. Cam nesaf y gwaith oedd ystyried yr atebion polisi mwyaf effeithiol i Lywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid fynd i'r afael â thlodi plant ar y lefel hon. Gweithiodd Achub y Plant (Cymru) ar y prosiect hwn gyda Sefydliad Bevan a'r Athrofa Polisi Newydd. Mae'r adroddiad terfynol bellach wedi'i gwblhau. Mae Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried y canfyddiadau'n ofalus yng nghyd-destun ehangach datblygu polisïau newydd.

Mae ymarferiad ar waith hefyd i geisio nodi gwariant ar faterion tlodi plant ar draws Adrannau Llywodraeth y Cynulliad. Bydd hyn yn hynod o werthfawr wrth asesu'r adnoddau a ddefnyddir ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r mater.

Fel rhan o'r adolygiad mwyaf diweddar o offeryn Porth i Bolisïau Llywodraeth y Cynulliad yn 2007, ymgynghorwyd â'r Tîm Tlodi Plant ar gwestiwn prawfesur tlodi plant priodol. Cytunwyd ar gwestiwn ac fe'i hychwanegwyd at yr Offeryn. Mae'r Offeryn yn cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd i adlewyrchu 'Cymru'n Un'. Mae cyfarfodydd pellach wedi'u cynnal gyda'r Uned Polisi Strategol i sicrhau bod y diweddariadau cyfredol i'r Offeryn yn cynnwys cwestiynau a fydd yn fuddiol i blant mewn teuluoedd incwm isel. Mae mynd i'r afael â thlodi plant yn hanfodol i'r Offeryn newydd a bydd pob rhaglen newydd yn cael ei 'phrawfesur' i sicrhau ei bod yn fuddiol i'r plant tlotaf.

Mae sicrhau bod gweddill y sector cyhoeddus yn rhoi blaenoriaeth i dlodi plant yn flaenoriaeth. Dyna sydd wrth wraidd ymrwymiad 'Cymru'n Un' i *sefydlu dyletswydd ar asiantaethau cyhoeddus i gyfrannu at ddod â thlodi ymhlith plant i ben ac i arddangos hynny.* Defnyddir pwerau newydd Llywodraeth y Cynulliad i ddeddfu i sefydlu dyletswydd ar asiantaethau cyhoeddus i gyfrannu at ddod â thlodi ymhlith plant i ben ac i arddangos hynny. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cyflawni'r ymrwymiad hwn drwy ddefnyddio pwerau newydd i lunio mesurau a ddarparwyd gan y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft ar gyfer Plant sy'n Agored i Niwed a Thlodi Plant a gyflwynwyd ar 9 Gorffennaf 2007. Mae'r broses ddeddfwriaethol newydd yn gallu bod yn hir, ac yn y tymor byr bydd Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu cytundeb gwirfoddol i ymrwymo i weithredu ar y cyd ym maes tlodi plant, mewn ymgynghoriad llawn â'r sectorau perthnasol, er mwyn sicrhau bod asiantaethau cyhoeddus yn blaenoriaethu tlodi plant. Daeth yr ymgynghoriad ar y cytundeb ar y cyd i ben ar 30 Medi 2008 ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar y broses o lofnodi'r cytundeb.

Mae nifer o asiantaethau cyhoeddus eisoes wedi bod yn gweithio i weithredu ar dlodi plant. Er enghraifft, mae dau awdurdod lleol - Rhondda Cynon Taf a Gwynedd – yn defnyddio arian Llywodraeth y Cynulliad i gymryd rhan mewn prosiect peilot 2 flynedd dan arweiniad Achub y Plant a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau bod gweithredu ar dlodi plant ar frig rhestr blaenoriaethau llywodraeth leol.

Mae'r Uned Polisi Gwledig wrthi'n datblygu canllawiau prawfesur gwledig manwl a fydd yn sicrhau bod holl bolisïau/rhaglenni newydd y Cynulliad, gan gynnwys y rhai sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, yn ystyried anghenion ac amgylchiadau arbennig pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Yn benodol, rydym yn awyddus i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn dioddef o ganlyniad uniongyrchol i le maent yn byw, lle mae gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus cyfyngedig ac anhawster i gael gafael ar, a defnyddio gwasanaethau a chanolfannau allweddol yn broblem gyffredin.

Gwnaethom ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i sicrhau o leiaf 6,500 yn fwy o dai fforddiadwy erbyn 2011, ac rydym yn cymryd nifer o gamau i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno Cynlluniau Cyflenwi Tai Fforddiadwy, cynyddu adnoddau'r Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol, paratoi canllawiau arferion gorau ar ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio i ddarparu tai fforddiadwy, a darparu hyfforddiant i staff ac aelodau awdurdodau lleol ar ddefnyddio mecanweithiau o'r fath. Mae gennym ymrwymiad o hyd i sicrhau bod pob tŷ cymdeithasol yn cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru a bod y safon hon yn cael ei chynnal wedyn.

Rydym hefyd yn defnyddio'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Cyllideb y cynllun yn 2007/08 oedd £19.6m ac mae dros 93,000 o gartrefi wedi derbyn cymorth ers 2000.

Argymhelliad 20

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru *[mewn perthynas â digartrefedd ymhlith pobl ifanc]*:

a. Fuddsoddi mwy o arian mewn darpariaeth ar gyfer digartrefedd, gwasanaethau cymorth a thai diogel, y mae angen iddynt fod ar gael fel mater o drefn a'i bod hi'n hawdd cael gafael arnynt.
b. Rhoi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol er mwyn iddynt ddarparu ymyriad cynnar a gwasanaethau cyfryngu o safon uchel.

Ymateb

Mae'r arian mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wario ar wasanaethau digartrefedd wedi cynyddu dros 1000% ers 1998, ac mae bellach yn ariannu 170 o brosiectau ledled Cymru. Mae llawer o'r prosiectau hyn yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â digartrefedd ymhlith pobl ifanc, ac yn ddiweddar mae'r Dirprwy Weinidog dros Dai wedi cyhoeddi y bydd arian ar gael ar gyfer amrywiaeth o brosiectau newydd, gan gynnwys gwasanaethau cyfryngu teuluol a gwaith gyda throseddwyr ifanc.

Rydym yn paratoi cynllun i fynd i'r afael â digartrefedd ledled Cymru dros y ddeng mlynedd nesaf. Bydd hyn yn rhoi sylw uniongyrchol i ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc ac yn gosod yr agenda ar gyfer sut i atal hyn lle bo hynny'n bosibl. Y flaenoriaeth gyntaf fydd hybu gwaith partneriaeth a chynllunio effeithiol er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau sydd eisoes yn bodoli. Rydym yn awyddus i hybu arfer da yn y maes hwn, ond dim ond ar ôl cynnal asesiad dichonolrwydd ac ystyried unrhyw faich ariannol ychwanegol ar awdurdodau lleol yn ofalus y byddem yn cyflwyno deddfwriaeth newydd.

18. Addysg

Argymhelliad 21

Gan weithio gyda phartneriaid statudol allweddol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

a. CYFFREDINOL

- Gwireddu ei gweledigaeth uchelgeisiol o well cyrhaeddiad a llai o anghydraddoldebau mewn addysg i bob plentyn yng Nghymru.
- Hybu ymyriad cynnar, gan ganolbwyntio ar wella cefnogaeth i rieni ac integreiddio ymatebion amlasiantaethol o fewn awdurdodau addysg lleol ac ysgolion.
- Canolbwyntio ar wella safonau, cefnogaeth a dulliau cyflawni gan dargedu'r rhai mwyaf difreintiedig a'r ahi sy'n tangyflawni fwyaf mewn ysgolion.
- Gwneud awdurdodau addysg lleol ac ysgolion yn gyfrifol am sicrhau bod yna lai o anghydraddoldeb ym maes addysg ledled Cymru.
- Parhau i fuddsoddi digon o arian, a sicrhau bod arian ychwanegol yn cael ei dargedu tuag at leihau anghydraddoldebau addysgol ac yn cael ei gyfuno ag arian ychwanegol gan adrannau eraill.

b. HAWLIAU PLANT

- Parhau i hybu cyfranogiad mewn ysgolion â phwyslais cryf ar grwpiau sydd wedi'u gwahardd ac ymestyn cyfranogiad i feysydd fel recriwtio athrawon, cwricwla, perfformiad ysgolion ac arolygiadau.

c. GWAHARDDIADAU

- Gofyn i awdurdodau addysg lleol gymryd pob cam sydd ei angen er mwyn lleihau gwaharddiadau ffurfiol ac anffurfiol, a sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd wedi'u gwahardd o'r un safon ag addysg brif ffrwd.

d. ANGHYDRADDOLDEBAU

- Gofyn i awdurdodau addysg lleol ac ysgolion barhau i ganolbwyntio ar ymyriad cynnar ac ymatebion cyfannol.
- Sicrhau bod argymhellion yn cael eu gweithredu'n effeithiol er mwyn gwella cyrhaeddiad addysgol yn *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith, Cau'r Bwlch* a'r *Strategaeth Tlodi Plant* drwy graffu ar berfformiad AALlau ac ysgolion ar gyfer disgyblion sydd dan anfantais a monitro eu perfformiad.

e. Y DDALFA AC ADDYSG I BLANT A PHOBL IFANC SY'N DERBYN GOFAL

- Sicrhau bod *Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan* yn cael ei gweithredu'n effeithiol a bod hawliau cyfartal i addysg yn y ddalfa a chefnogaeth barhaus ar ôl dychwelyd i'r gymuned leol yn cael eu gwireddu.
- Cryfhau'r gefnogaeth i blant sy'n derbyn gofal a gwneud awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarpariaeth addysgol i blant sy'n derbyn gofal.

f. BWLIO

- Gwneud yn siŵr fod y mesurau angenrheidiol ar waith i sicrhau bod Awdurdodau Addysg Lleol ac ysgolion yn gweithredu polisïau gwrth-fwlio effeithiol mewn ysgolion.
- Cynnal arolwg o brofiadau plant o fwlio yng Nghymru yn flynyddol.

g. CWRICWLA

- Cymryd camau i sicrhau bod y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn cael ei weithredu'n effeithiol mewn ysgolion.
- Datblygu a sefydlu egwyddorion CCUHP ar draws y cwricwlwm ac mewn rhaglenni hyfforddiant cychwynnol athrawon.

h. MAMAU IFANC YN EU HARDDEGAU

- Cryfhau'r gefnogaeth i awdurdodau lleol er mwyn gwella darpariaeth i rieni a gwneud awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth o safon uchel.

Ymateb

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio i wireddu ei gweledigaeth uchelgeisiol o well cyrhaeddiad a llai o anghydraddoldebau ym maes addysg trwy weithredu sawl polisi allweddol sydd â'r nod o godi'r bar cyrhaeddiad i blant a phobl ifanc a lleihau'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng gwahanol grwpiau. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn defnyddio dadansoddiad ystadegol i nodi lle y dylid targedu adnoddau ac ymyriadau ac i fesur cynnydd, ac yn annog ysgolion ac awdurdodau lleol i'w defnyddio hefyd.

Darperir polisïau allweddol i helpu i leihau anghydraddoldebau trwy **Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion** Llywodraeth y Cynulliad, a lansiwyd yn ddiweddar. Nod y Fframwaith hwn yw sicrhau bod ein holl ysgolion yn datblygu'n lleoliadau dysgu effeithiol. Mae'r Fframwaith yn seiliedig ar fodel diwygio tair lefel – hynny yw, ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'i gilydd ac yn cysoni eu rhaglenni i wella lles ac addysg plant a phobl ifanc.

Mae effeithiolrwydd ysgolion yn gofyn am ethos lle disgwylir i BOB plentyn a pherson ifanc gyrraedd safon ragoriaeth bersonol. Mae angen i ysgolion weithio ar ddatblygu eu dulliau unigol a rhyngddibynnol o gyflawni effeithiolrwydd, cynnal gwybodaeth ac arfer da cyfredol a chanfod atebion newydd i heriau hen a newydd. Bydd hyn yn gwella cyfleoedd ar gyfer y dyfodol ac yn cefnogi'r gwaith o greu diwylliant perfformiad uchel.

Bydd **Llwybrau Dysgu 14-19** yn ehangu'r llwybrau trwy addysg i bobl ifanc er mwyn rhoi adlewyrchiad gwell o'u cryfderau, eu dewisiadau a'u huchelgeisiau.

Ar hyn o bryd, rydym yn ymgynghori ar Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008. Bydd y darpariaethau yn y Mesur yn darparu ar gyfer fframwaith cyfreithiol a fydd yn adlewyrchu polisi Llwybrau Dysgu 14-19. Prif ddiben y Mesur yw creu hawl i ddysgwyr 14-19 oed yng Nghymru ddewis cwrs astudio o gwricwlwm ardal leol (dewislen dewisiadau).

Mae rhaglen **Rhagori** Llywodraeth y Cynulliad wedi neilltuo tua £14.5 miliwn y flwyddyn ar gyfer yr ysgolion hynny sy'n gwasanaethu ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, ers Ebrill 2006. O dan yr un rhaglen, mae £1 miliwn arall wedi'i neilltuo fel y gall awdurdodau lleol gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal. Mae hyn wedi galluogi ysgolion i wella adnoddau er mwyn diwallu anghenion disgyblion sydd yn yr ysgol ar y pryd. Mae hefyd wedi galluogi ysgolion i archwilio ffyrdd o brif ffrydio dulliau mwy arloesol o fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad addysgol isel. Trwy weithio gyda chonsortia rhanbarthol o awdurdodau lleol, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi lledaenu'r arfer da sy'n deillio o'r rhaglen trwy ddigwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol a thrwy ddatblygu gwefan Rhagori.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig. Maent yn aml yn ddifreintiedig, yn enwedig pan fyddant yn gorfod dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, ac mae rhai grwpiau'n tangyflawni'n gyson. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys disgyblion Sipsiwn-Teithwyr sydd, am lawer o resymau, gan gynnwys dysgu bylchog gyrfaoedd ysgol byr, yn tangyflawni fwy nag eraill. Mae ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i helpu plant a phobl ifanc i gyrraedd eu potensial llawn wedi'i gefnogi gan arian sylweddol - £10 miliwn yn 2008-09. Rydym wedi creu cysylltiadau agos gydag ymarferwyr AALlau sy'n arwain gwaith ar gyraeddiadau disgyblion o leiafrifoedd ethnig, elusennau, gan gynnwys Achub y Plant, ac adrannau eraill ledled Llywodraeth y Cynulliad. Mae Is-grŵp Amrywiaeth Ethnig a Diwylliannol o Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn cyfrannu at ddatblygu polisïau.

Mae Prosiect Cyfranogiad Disgyblion Llywodraeth y Cynulliad wedi dosbarthu holiadur i bob ysgol yng Nghymru i gasglu gwybodaeth am ba mor gynhwysol a chynrychiadol yw cynghorau ysgol. Caiff y data o'r gwaith ymchwil hwn ei ddadansoddi a'i gyflwyno i'r cyhoedd. Byddwn hefyd yn cynnal ymchwil a dargedir mewn perthynas â rhwystrau i gyfranogiad, yn enwedig ymhlith grwpiau sydd ar y cyrion, ac yn gweithredu ar yr argymhellion.

Byddwn yn diffinio'r hyn a olygir wrth "arfer da" ac yn ailysgrifennu'r wybodaeth sydd ar gael i ddisgyblion, staff a llywodraethwyr er mwyn rhoi canllawiau manylach ar sut i ddatblygu cyfranogiad go iawn mewn meysydd fel recriwtio, cwricwlwm, addysgu a dysgu a pholisïau allweddol, gydag astudiaethau achos cysylltiedig.

Byddwn hefyd yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb, a chafodd yr adroddiad arno ei gyhoeddi ym mis Mai 2008. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynhyrchu cynllun gweithredu mewn ymateb i'r adroddiad yn gynnar yn 2009.

Un o'r 'Egwyddorion Cydweithio' cyffredinol yn ein canllawiau cynllunio *Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau* yw'r angen am wasanaethau ataliol. Mewn perthynas ag egwyddorion "cyfannol", mae'r canllawiau ar Amcan Craidd 2 yn cyflwyno'r amcan y dylai pob plentyn a pherson ifanc dderbyn addysg llawn amser, gael unrhyw rwystrau i ddysgu wedi'u nodi a'u dileu'n gynnar, cyrraedd ei botensial llawn, parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ffurfiol ac anffurfiol bwrpasol tan iddo fod yn 19 oed a chyflawni lles cymdeithasol ac economaidd.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo'n llwyr i wella cyrhaeddiad addysgol ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru, beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau. Rydym yn monitro adroddiadau arolygu Estyn ar ysgolion sy'n peri pryder ac ysgolion y mae angen eu gwella'n sylweddol, ac yn defnyddio grym i ymyrryd yn ôl yr angen. Rydym hefyd yn gwerthuso perfformiad gwasanaethau AALlau yng ngoleuni arolygiadau Estyn. Ym mis Chwefror 2008, cyhoeddwyd 'Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion: Creu cymunedau dysgu effeithiol gyda'n gilydd'. Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (SEF) yn seiliedig ar egwyddorion y model diwygio ar dair lefel – h.y. llywodraeth, awdurdodau lleol ac ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd i newid y system. Nod gyffredinol yr SEF yw gwella profiadau addysgol a chyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc.

Mae'r gwaith o weithredu Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan yn cael ei gefnogi gan gyfarfodydd chwarterol Pwyllgor Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, sy'n cael ei gadeirio ar y cyd gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'r Pwyllgor hwn yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o'r holl asiantaethau cyfiawnder ieuenctid perthnasol, yn ogystal â swyddogion o adrannau iechyd, tai, addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Pwyllgor wedi goruchwylio'r gwaith o bennu amcanion a thargedau llawn her bob blwyddyn ers 2004 ac rydym wedi gweld cryn lwyddiant o ran cyrraedd y targedau hyn. Erbyn hyn, rydym wedi cytuno y caiff gwaith ar y cyd gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ei ddatblygu eleni gyda'r nod o ganolbwyntio'n well ar yr amcanion hyn yn y dyfodol.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Plant 2004 i hyrwyddo addysg plant sy'n derbyn gofal. Bydd strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant sy'n agored i niwed yn cynnwys sawl cynnig i wella addysg plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, gan gynnwys cynigion i roi statws statudol i rôl 'athro dynodedig' er mwyn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu bwrsari o £2,000 ar gyfer plant sy'n gadael gofal i fynd ymlaen i addysg uwch.

Yn gwanwyn 2009, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynhyrchu canllawiau newydd i ysgolion ac awdurdodau ar fwlio homoffobig a hiliol, seiberfwlio a bwlio plant ag anableddau. Mae dull hunanwerthuso wedi'i dreialu, a bydd ar gael i bob ysgol ym mis Tachwedd 2008. Cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad ddwy gynhadledd ar 14 a 16 Hydref 2008 a chynhelir y bedwaredd wythnos gwrth-fwlio flynyddol ym mis Tachwedd 2008.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn comisiynu ymchwil i achosion o fwlio yng Nghymru a fydd yn gweithredu fel llinell sylfaen ar gyfer y dyfodol ac yn ein galluogi ni i asesu natur y broblem a chynnydd o ran mynd i'r afael â hi.

Cyfrifoldeb ysgolion, mewn partneriaeth â'u hawdurdodau lleol, yw darparu'r Fframwaith ABCh yn effeithiol. Caiff y gwaith hwn ei ategu gan y wefan ABCh newydd sydd wedi cael croeso cynnes gan ymarferwyr a chan gyllid parhaus ar gyfer mentrau fel Rhaglen Graidd Cyswllt Heddlu Cymru Gyfan, sydd wrthi'n cael ei diwygio i adlewyrchu'r cwricwlwm newydd.

Mae'r sefyllfa mewn perthynas â hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) fel a ganlyn:

- Mae'n rhaid i bob sefydliad achrededig sy'n darparu cyrsiau HCA gynllunio cynnwys, strwythur a darpariaeth yr hyfforddiant fel y gall athrawon dan hyfforddiant ddangos eu bod wedi bodloni'r Safonau Statws Athro Cymwysedig (SAC). Datganiadau canlyniadau sy'n amlinellu'r hyn y dylai athrawon dan hyfforddiant ei wybod, ei ddeall a gallu ei wneud ar ddiwedd cwrs HCA er mwyn ennill SAC ac felly gallu gweithio fel athro cymwysedig yw'r Safonau SAC.
- Mae'r Safonau SAC yn rhoi grym i ddarparwyr benderfynu sut y byddant yn trefnu eu hyfforddiant ac ymateb i anghenion hyfforddeion unigol. Nid ydynt yn pennu cwricwlwm HCA, nac yn nodi sut y dylid trefnu neu gynnal hyfforddiant.
- Nid oes yna gwricwlwm HCA ar wahân. Ond er mwyn ennill SAC, mae'n rhaid i hyfforddeion ddangos, ymysg pethau eraill, bod ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r pynciau maent wedi'u hyfforddi i'w haddysgu, gan gynnwys y cwricwlwm ysgol perthnasol, ac y gallant addysgu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau gofynnol sy'n berthnasol i'r cwricwlwm i ddisgyblion yn yr oedran y maent wedi'u hyfforddi i'w haddysgu. Mae'n rhaid iddyn nhw fod yn gyfarwydd â'r Fframwaith ABCh sy'n berthnasol i'r oedran maent wedi'u hyfforddi i addysgu hefyd.
- Os bydd egwyddorion CCUHP wedi'u cynnwys ar draws y cwricwlwm ysgol, cânt eu cwmpasu mewn HCA – gan fod rhaid i ddarparwyr sicrhau bod gwybodaeth am y cwricwlwm perthnasol, gan gynnwys y Fframwaith ABCh, yn cael ei hymgorffori mewn HCA er mwyn sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn gallu dangos eu bod wedi bodloni safonau SAC.
- Byddai unrhyw gamau pellach gan Lywodraeth y Cynulliad i ddatblygu a chynnwys egwyddorion CCUHP ledled y cwricwlwm hefyd yn cael eu cwmpasu yn yr HCA. Mae'n annhebygol y bydd angen gwneud newidiadau ychwanegol i'r HCA.

Dau o brif themâu Cymorth (Cronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc) yw 'Cymorth i Deuluoedd' a 'Hybu Iechyd'.

Nod Cymorth i Deuluoedd yw sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael gafael ar gymorth a fydd yn meithrin cydberthynas dda rhwng rhieni a phlant, ac mae Hybu Iechyd yn hyrwyddo datblygiad iach plant, gan gynnwys cyn geni, a phobl ifanc trwy ddarparu cymorth iechyd cymunedol mwy dwys, neu ddileu rhwystrau i wasanaethau iechyd prif ffrwd. Trwy'r themâu hyn, rydym yn parhau i ddarparu cymorth i deuluoedd ac yn ei gysylltu â'r agenda cynhwysiant cymdeithasol ehangach trwy ddarparu cymorth i rieni yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Bydd Cymorth yn parhau i ddarparu prosiectau gyda'r nod o ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar bobl ifanc i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â rhianta.

19. Chwarae

Argymhelliad 22

Gan weithio gyda phartneriaid statudol allweddol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

a. Ymrwymo'i hun i gadw'r momentwm er mwyn cyrraedd targedau ei strategaeth a chomisiynu adolygiad pum mlynedd o'r strategaeth chwarae genedlaethol maes o law.

b. Sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i amddiffyn a datblygu digon o lefydd y gall plant eu defnyddio i chwarae ym mhob cymuned yng Nghymru ac i ddiwallu holl anghenion chwarae plant.

c. Sefydlu rhaglen addysg gyhoeddus gydlynol er mwyn sicrhau bod anghenion chwarae datblygiadol plant yn cael eu cydnabod gan mor bwysig ydynt i'r gymdeithas ac i ddyfodol y gymdeithas.

d. Comisiynu gwaith ymchwil manwl:

- Dadansoddiad cymharol o fynediad i wahanol lefydd y gall plant eu defnyddio i chwarae ac o'r defnydd a wneir o gyfleoedd chwarae ar gyfer pob plentyn, gan gynnwys, yn arbennig, blant anabl a phlant o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig.
- Astudiaeth hydredol i fanteision darparu mwy o gyfleoedd chwarae i blant.

Ymateb

Mae dwy flynedd ers i Lywodraeth y Cynulliad gyhoeddi Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae. Ers hynny, mae wedi parhau i ymrwymo i ddatblygu chwarae yng Nghymru. Mae Grŵp Monitro hefyd wedi'i sefydlu i oruchwylio darpariaeth ymarferol y cynllun.

Mae'r Cynulliad wedi dyfarnu contract i York Consulting i ddatblygu Safonau a Chanllawiau ar Chwarae i awdurdodau lleol a bydd yn ymgynghori'n eang â phlant a phobl ifanc fel rhan o'r broses hon.

Yn y Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae drwyddo draw, mae'r Cynulliad yn cydnabod pwysigrwydd rhoi cyfle i blant a phobl ifanc chwarae er mwyn iddynt gyflawni eu potensial. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ymrwymo i chwarae a chymryd y camau a amlinellir yn y cynllun.

Erbyn hyn, mae'r Cynulliad wedi cytuno â York Consulting bod y contract i ddatblygu Safonau a Chanllawiau ar Chwarae i awdurdodau lleol wedi dod i ben. O ganlyniad, maent wedi bod yn trafod â'n His-adran Gaffael a byddant yn rhoi'r contract hwn allan i dendr eto.

Mae'r cynllun chwarae'n cynnwys pob plentyn ac unigolyn ifanc. Wrth ddatblygu'r contract newydd i ddatblygu safonau a chanllawiau ar chwarae, bydd y Cynulliad yn ymgynghori'n eang â phlant a phobl ifanc. Mae'r Cynulliad yn cydnabod bod plant a phobl ifanc am gael llefydd lle gallan nhw gyfarfod, cymdeithasu a chwarae. Mae eu barn yn rhan bwysig o'r broses o ddatblygu cyfleoedd chwarae yng Nghymru.

Ym mis Mehefin 2008, lansiodd Llywodraeth y Cynulliad ymgynghoriad cyhoeddus, "Gweithredu ar Dlodi Plant", sy'n cynnig deddfwriaeth newydd ar gyfer Cymru. Un o'r dyletswyddau newydd a gynigir ar gyfer awdurdodau lleol yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael digon o gyfle i chwarae. Gall hyn gynnwys gwaith rhagorol cyfredol a ariennir gan grantiau Llywodraeth y Cynulliad sy'n hyrwyddo dealltwriaeth o arferion chwarae plant a phobl ifanc a'r gwaith o greu strategaethau lleol.

Hwyrach y bydd dyletswydd newydd i sicrhau digon o gyfle i chwarae yn mynd y tu hwnt i ddarparu cyfleusterau chwarae fel cyfarpar sefydlog neu gynlluniau â staff. O ran hyrwyddo chwarae, bydd y ddeddfwriaeth newydd yn caniatáu ar gyfer creu canllawiau statudol a safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r Cynulliad eisoes yn datblygu canllawiau a safonau cenedlaethol ar chwarae.

Mae Cam Gweithredu 18 Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae yn nodi y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i sicrhau bod chwarae'n cael ei gydnabod fel dull o ddarparu gweithgarwch seicolegol a chorfforol i blant ac y bydd yn comisiynu gwaith ymchwil yng Nghymru ar fanteision seicolegol chwarae rhydd. Yn anffodus, nid yw hi wedi bod yn bosibl cyflawni'r holl gamau a nodir yn y cynllun chwarae o fewn yr amserlenni penodol. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ymrwymo i gyflawni'r camau hyn ac yn gweithio i sicrhau y cânt eu darparu.

Daw'r prif gyllid ar gyfer chwarae trwy Cymorth – y Gronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc. Mae 'chwarae, hamdden a chyfoethogi' yn rhan annatod o'r gronfa hon. Caiff Cymorth ei weinyddu trwy Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc ym mhob ardal awdurdod lleol, a dosberthir cyllid i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau lleol. Mae partneriaethau hefyd yn cyflwyno adroddiadau ar effaith y prosiectau chwarae ar blant a phobl ifanc anabl yn 2007-2008. Bydd gan Lywodraeth y Cynulliad ddarlun cliriach pan fydd yr holl adroddiadau wedi'u darparu.

20. Plant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches

Argymhelliad 23

Gan weithio gyda phartneriaid statudol allweddol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

a. Sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches yn gallu defnyddio'r holl wasanaethau sylfaenol, sef gwasanaethau addysg, iechyd ac iechyd meddwl.

b. Ariannu gwasanaeth eiriolaeth annibynnol arbenigol ar gyfer plant sydd wedi'u gwahanu fel cam tuag at sefydlu system warcheidiaeth ar gyfer pob plentyn sydd wedi cael ei wahanu oddi wrth ei rieni.

Ymateb

Mae'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn cefnogi disgyblion 3-18 oed sy'n ceisio lloches, a rhoddir ystyriaeth arbennig iddynt o dan y fformwla ariannu i gydnabod eu hanghenion arbennig a'r ffaith bod rhaid i AALlau ddarparu cyllid ar gyfer eu gwisg ysgol, prydau bwyd, trafnidiaeth a chostau cyfieithu.

Cydnabyddir hefyd y gall ffoaduriaid a cheiswyr lloches ei chael hi'n anodd cael mynediad i addysg bellach ac uwch, yn rhannol oherwydd lefel y ffioedd. Mae canllawiau sy'n esbonio'r rheolau ar hyn yn cael eu paratoi ar gyfer myfyrwyr a sefydliadau ar hyn o bryd.

Mae'r Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid (sydd ar ddod) yn nodi'r canlynol: er mwyn sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches yn cael eu diwallu, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda phartneriaid o lywodraeth leol, byrddau iechyd lleol, gwasanaethau cymdeithasol, Consortiwm Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Cymru, Clic Ar-lein, DeNIAS a'r sector gwirfoddol i:

- Sefydlu adnodd Cymru gyfan arbenigol sy'n gallu rhoi gwybodaeth a chyngor i'r rheini sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches.
- Gwneud trefniadau ar gyfer casglu a rhannu data gweinyddol cyfredol a chael data newydd ar y boblogaeth o blant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches er mwyn gwella'r gwaith o lywio polisïau a chyfarwyddo adnoddau yn y dyfodol.
- Sefydlu adnodd penodedig yn Llywodraeth y Cynulliad a fydd yn gweithredu fel pwynt cyfeirio ar gyfer datblygu polisïau ar blant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches.
- Datblygu protocol Llywodraeth y Cynulliad sy'n pennu safonau a disgwyliadau ar gyfer asesu plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches, gan roi sylw arbennig i faterion iaith ac amgylchiadau plant sydd ar eu pennau eu hunain.

- Datblygu gwasanaethau eiriolaeth arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches fel rhan o adolygiad cyfredol Llywodraeth y Cynulliad o ddarpariaeth eiriolaeth ledled Cymru.

- Datblygu rhaglen o fesurau diogelu iechyd a hybu iechyd a dargedir i ddiwallu anghenion plant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches, yn gysylltiedig ag arferion asesu gwell.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod polisïau a rhaglenni plant yng Nghymru ym maes ceisio lloches a mewnfudo yn cael eu seilio ar egwyddorion CCUHP.

Ariannodd Llywodraeth y Cynulliad Gyngor Ffoaduriaid Cymru i ddarparu gwasanaeth eiriolaeth arbenigol i blant ar eu pen eu hunain oedd yn ceisio lloches yn 2007/08. Ar hyn o bryd, rydym yn gwneud trefniadau ariannu hirdymor gyda'r Swyddfa Gartref.

21. Teithwyr o dras Romani, Gwyddelig a Sipsiwn

Argymhelliad 24

Gan weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid statudol allweddol eraill, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

a. Gweithredu'n ddi-oed yr holl argymhellion yn yr *Adolygiad o Wasanaethau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr*, a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

b. Darparu cefnogaeth, hyfforddiant a threfniadau monitro er mwyn sicrhau bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn cydymffurfio â chanllawiau gwrth-fwlio.

c. Darparu adnoddau er mwyn gweithredu modelau a dulliau a all gynnwys a chynnal plant a phobl ifanc o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn effeithiol mewn addysg.

d. Sefydlu strwythurau cefnogaeth arbenigol er mwyn cynnwys Sipsiwn a Theithwyr ifanc wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau yn genedlaethol ac yn lleol.

e. Sefydlu rhwydwaith cenedlaethol ar gyfer ymarferwyr, a all gyfrannu tuag at y gwaith o ddatblygu polisïau a gwasanaethau cenedlaethol.

Ymateb

Ym mis Ionawr 2007, sefydlwyd Uned Sipsiwn-Teithwyr i weithio tuag at yr argymhellion a amlinellir yn yr 'Adolygiad o'r Ddarpariaeth Gwasanaethau i Sipsiwn a Theithwyr' ymysg pethau eraill. Mae llawer o'r argymhellion hyn wedi'u cyflawni.

Er enghraifft:

- Mae'r geiriau Sipsi a Theithiwr yn cael eu nodi mewn llythrennau bras mewn dogfennau swyddogol (Argymhelliad 1).
- Mae'r Cyfrif Carafannau wedi'i ailgyflwyno (Argymhelliad 3).
- Mae adrannau 225 a 226 o Ddeddf Tai 2004 wedi'u cychwyn er mwyn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad o anghenion llety Sipsiwn-Teithwyr a chynllunio ar gyfer y rhain (Argymhellion 7 a 9).

Caiff yr argymhellion sy'n weddill eu trafod yn y Strategaeth Sipsiwn-Teithwyr Cymru Gyfan a gynhyrchir fel drafft yn 2009.

Cyflwynwyd canllawiau gwrth-fwlio i ysgolion ym mis Medi 2003. Y llynedd, datblygwyd dull hunanasesu i helpu ysgolion i ddiwygio'u polisïau gwrth-fwlio. Mae 8 ysgol ym mhob ardal cyngor lleol wedi cymryd rhan mewn treial i brofi'r dull, a fydd ar gael i ysgolion ym mis Tachwedd 2008. Mae'r dull hunan-asesu'n amlygu'r angen i ysgolion fonitro ac adolygu eu polisïau'n rheolaidd.

Mae'r Grant Addysg i Deithwyr, sy'n £900,000 yn 2008-09, yn cefnogi gwasanaethau addysg arbenigol AALlau i Sipsiwn-Teithwyr sy'n diwallu anghenion arbennig iawn y grŵp hwn. Yn ddiweddar, mae canllawiau newydd wedi cyhoeddi 'Symud Ymlaen - Addysg i Sipsiwn-Teithwyr', sy'n hyrwyddo arfer gorau. Mae Fforwm Cymru gyfan o Gydgysylltwyr Addysg Sipsiwn-Teithwyr yn cael ei gefnogi trwy ymgynghori, rhannu arfer gorau a chydweithio; mae Achub y Plant (Cymru) yn rhan o'r rhwydwaith hwn.

Bu'r tîm Sipsiwn-Teithwyr yn gweithio gydag Achub y Plant i gynhyrchu DVD "*Travelling Ahead*", sy'n rhoi llais i blant a phobl ifanc o'r gymuned Sipsiwn-Teithwyr yng Nghymru. Mae'r DVD yn rhoi llwyfan i bobl ifanc o'r gymuned drafod eu gobeithion a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol a materion sy'n effeithio arnynt, gan gynnwys iechyd, addysg a llety.

Ym mis Mawrth 2008, ariannodd y tîm Sipsiwn-Teithwyr brosiect Croeso y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn y Senedd a oedd yn canolbwyntio ar Sipsiwn-Teithwyr. Bu'r plant a'r bobl ifanc a oedd wedi cyfrannu at y DVD yn cymryd rhan yn y digwyddiad ac yn gofyn cwestiynau i'r Gweinidog.

Yn 2008/09, cytunodd y tîm Sipsiwn-Teithwyr i ariannu swydd Cydgysylltydd Sipsiwn-Teithwyr yn rhannol trwy'r Grant Cynhwysiant. Bydd y Cydgysylltydd wedi'i leoli yn Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon Cymru, ac yn gweithio gyda'r gymuned Sipsiwn-Teithwyr, gan gynnwys pobl ifanc, i sicrhau bod y gymuned yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cynllun safleoedd ac arfer da o ran rheoli safleoedd.

Bydd y tîm Sipsiwn-Teithwyr hefyd yn ymgynghori â'r gymuned Sipsiwn-Teithwyr ar ddatblygu'r Strategaeth Sipsiwn-Teithwyr.

22. Camfanteisio’n rhywiol a masnachu

Argymhelliad 25

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

a. Neilltuo arian er mwyn amddiffyn ac ymateb i anghenion plant a phobl ifanc hyd at 18 oed y mae perygl i rywun eu cam-drin drwy gamfanteisio’n rhywiol arnynt neu sydd yn cael eu cam-drin yn y fath fodd.

b. Dweud wrth awdurdodau lleol bod defnyddio llety diogel yn ymateb amhriodol ac aneffeithiol i broblem camfanteisio’n rhywiol ar blant.

c. Datblygu mecanweithiau priodol i sicrhau hyfforddiant o safon uchel i bobl broffesiynol er mwyn adnabod plant sydd yn cael eu masnachu a darparu gwasanaethau cymorth arbenigol i blant sy’n cael eu masnachu sydd wedi ddioddef camfanteisio rhywiol.

d. Sicrhau bod data’n cael ei gasglu yn ddigonol er mwyn i ni allu cael portread cywir o sefyllfa masnachu plant yng Nghymru.

Ymateb

Mae yna ystod o raglenni a pholisïau sydd â’r nod o ddarparu cymorth i blant. Yn aml, bydd achosion o gam-fanteisio rhywiol yn gofyn am ymateb aml-asiantaeth a gallai hyn gynnwys asiantaethau nad ydynt wedi’u datganoli. Nid yw neilltuo arian yn briodol gan y gellir darparu adnoddau trwy nifer o ffrydiau ariannu.

Mae gwaith yn cael ei gyflawni i baratoi canllawiau newydd ar ddiogelu plant sy’n cael eu cam-drin trwy gam-fanteisio rhywiol. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried yr adroddiad hwn wrth baratoi’r canllawiau hynny.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi canllawiau ar faterion masnachu i ymgynghori arnynt, ac mae wrthi’n paratoi drafft terfynol i’w gymeradwyo gan Weinidogion cyn ei gyhoeddi.

Bydd y ddwy set o ganllawiau’n targedu aelodau Byrddau Lleol Diogelu Plant a gweithwyr proffesiynol sy’n gweithio mewn aelod-asiantaethau. Caiff anghenion casglu data eu hystyried wrth ddatblygu’r canllawiau ymhellach, ond bydd cael gafael ar wybodaeth/data dibynadwy’n anodd oherwydd natur y masnachu.

23. Crynodeb a chasgliadau

Mae'r adroddiad Aros, Edrych, Gwrando (a'r adroddiad dros dro 'Cywiro'r Cau') wedi nodi amrywiaeth eang o faterion i'w hystyried ar lefel y DU a Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r ymatebion a ddarperir yn yr adroddiad hwn yn rhoi syniad o safbwynt Llywodraeth y Cynulliad mewn ymateb i'r materion sy'n codi yn yr argymhellion.

Mae'r ymatebion i'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn dangos bod llawer o gynnydd yn cael ei wneud ar weithredu hawliau o dan CCUHP yng Nghymru a bod camau eisoes yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a nodir. Fodd bynnag, er bod Cymru wedi dechrau ar y llwybr cywir, mae'n amlwg bod llawer o waith i'w wneud eto i sicrhau y bydd CCUHP yn cael ei gydnabod a'i gynnwys yn llawn yng nghyd-destun Cymru.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio'n agos gyda'i phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol a chyda phlant a phobl ifanc i fynd i'r afael â'r materion hyn a datblygu'r agenda. Bydd hyn yn adeiladu ar y seiliau cadarn sydd wedi'u sefydlu yng Nghymru ac a ddangosir yn yr adroddiad hwn.

Daw elfen allweddol o'r camau gweithredu ar gyfer y dyfodol o'r ymateb i arsylwadau terfynol Pwyllgor Monitro CCUHP i barti Gwladwriaeth y DU. Bydd y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu a blaenoriaethau cytunedig ar gyfer Cymru'n dilyn cynhadledd ar gyfer partneriaid a rhanddeiliaid a gynhelir tua diwedd blwyddyn ariannol 2008-09 a bydd yn sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu'r agenda dros y 5 mlynedd nesaf.